



# Ymddygiad a Phresenoldeb: Cynllun Gweithredu yn Ymateb i'r Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

## Gwybodaeth

Dogfen wybodaeth Rhif: 076/2009  
Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2009

# Ymddygiad a Phresenoldeb: Cynllun Gweithredu yn Ymateb i'r Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb

- Cynulleidfa** Cyrff llywodraethu a phenaethiaid ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol ac unedau cyfeirio disgyblion yng Nghymru. Awdurdodau lleol; undebau athrawon ac undebau eraill; awdurdodau esgobaethol eglwysi; disgyblion; rhieni; cyrff sy'n rhoi cymorth i rieni; cyrff cenedlaethol a lleol yng Nghymru sy'n ymddiddori mewn hybu a chynorthwyo plant a phobl ifanc o ran eu deilliannau dysgu a'u lles.
- Trosolwg** Ceir yn y ddogfen hon ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb. Gellir gweld manylion am y Cynllun Gweithredu ar y wefan: [www.cymru.gov.uk/darparwyrddysgu](http://www.cymru.gov.uk/darparwyrddysgu)
- Camau i'w cymryd** Dim - er gwybodaeth.
- Rhagor o wybodaeth** Os oes gennych ymholiadau pellach am y ddogfen hon cysylltwch â:  
Mr James Evans  
Tîm Ennyn Diddordeb Disgyblion  
Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Adeiladau Newydd y Goron  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ  
Ffôn: 029 2082 1556  
Ffacs: 029 2080 1051  
E-bost: [petshare@wales.gsi.gov.uk](mailto:petshare@wales.gsi.gov.uk)
- Dogfennau cysylltiedig** Adroddiad ar yr Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb (ACYP)  
Cylchlythyr 47/2006 Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Cynnal Disgyblion a Chynhwysiant Cymdeithasol  
Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion  
Y Wlad Sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith - Llywodraeth Cynulliad Cymru, (2006)  
Gweler hefyd y rhestr o ddogfennau yn Adran 4



ISBN 978 0 7504 5164 2

© Hawlfraint y Goron Mawrth 2009


CMK-22-07-388a

D7970809

# Cynnwys

	Tudalen
1. Cyflwyniad:	4
1.1 Y cefndir	4
1.2 Y weledigaeth	5
1.3 Crynodeb o'r prif gamau gweithredu	6
2. Nodau ac Amcanion:	8
2.1 Y Prif Nodau	8
2.2 Hawliau Plant a Phobl Ifanc	9
2.3 Cymru'n Un	11
2.4 Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith	11
3. Adnoddau	12
4. Strategaethau Cysylltiedig	13
5. Rolau a Chyfrifoldebau	17
6. Cyflwyno'r Cynllun Gweithredu:	20
6.1 Deddfwriaeth	20
6.2 Tudalennu Ymddygiad a Phresenoldeb ar y We	20
6.3 Rheoli Prosiectau, Gwerthuso a Chynaliadwyedd	21
6.4 Trosolwg o'r Prif Gynlluniau Peilot a'r Gwaith Prosiect	22
7. Trosolwg o'r Cynllun Gweithredu	24
Atodiad A: Crynodeb o'r Camau Gweithredu	33
Atodiad B: Ymateb Trwy Hyfforddi a Datblygu: Ymateb i'r Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb (ACYP)	38

## Rhagair y Gweinidog



Pleser yw cael cyflwyno ein hymateb i'r Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb (ACYP) ar ffurf Cynllun Gweithredu sy'n nodi ein hymrwymiad i faterion yn ymwneud ag ymddygiad a phresenoldeb yng Nghymru. Bwriad y Cynllun Gweithredu yw llywio cyfeiriad a chyflymdra cyflwyno'r datblygiadau yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.

Mae'r cytundeb Cymru'n Un yn cydnabod effaith cyflawniad addysgol ar gael swydd yn y dyfodol ac rydym wedi ymrwymo i roi'r dechrau gorau i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'r hinsawdd economaidd sydd ohoni ar hyn o bryd wedi dwyn mwy o sylw at yr angen i gyflawni'n addysgol, a gwelwyd bod cyswllt agos rhwng hynny ac ymddygiad a phresenoldeb cadarnhaol. I'r perwyl hwnnw felly, un o'r prif flaenoriaethau i Gymru yw gwella lefelau llythrennedd yn unol ag argymhelliad y grŵp adolygu annibynnol a hyn fydd y canolbwynt i'n gwaith ar draws yr adran.

Mae'r Cynllun Gweithredu yn pwysleisio'r rôl allweddol sydd i ysgolion, awdurdodau lleol ac ystod eang o bartneriaid eraill wrth nodi'r problemau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad a phresenoldeb a gweithredu'r strategaethau i ymyrryd yn gynnar er mwyn sicrhau bod cymorth perthnasol ar gael cyn iddi fynd yn argyfwng. I ategu hyn oll bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio mewn partneriaeth gyda Thimau Cymorth Ymddygiad a'r Gwasanaeth Lles Addysg i ddatblygu fframweithiau eang a fydd yn cynnwys canllawiau a hyfforddiant.

Yn ein hymgais i greu ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, rhaid gweithio mewn partneriaeth gyda rhieni a chymunedau. Mae'r rhieni yn allweddol i'r gwaith o ddatblygu, cynorthwyo ac annog eu plant ar hyd eu taith addysgol. Yn rhan o'r cynllun gweithredu hwn, rydym am annog ysgolion i gryfhau'r dolenni cyswllt â rhieni ac rydym am sicrhau bod rhieni yn gallu cael hyd i'r cymorth sydd ei angen arnynt.

Rydym yn cydnabod na welwn lefelau ymddygiad a phresenoldeb yn gwella dros nos ond ceir yn y Cynllun Gweithredu gamau i'w cymryd yn y tymor byr, y tymor canol a'r tymor hir i greu diwylliant o ymyrryd yn gynnar, darparu cymorth effeithiol a chyflwyno dulliau o wreiddio a rhannu arferion da er mwyn hyrwyddo ymddygiad a phresenoldeb cadarnhaol mewn ysgolion ym mhob cwr o Gymru.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Athro Ken Reid a'r Grŵp Llywio am lunio Adroddiad ACYP a fu o gymorth i'n harwain i weld sut mae mynd ati i ddatblygu'r elfen hanfodol hon ar ein polisi addysg yng Nghymru.



**Jane Hutt AC**

Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

# 1. Cyflwyniad

Ceir yn y ddogfen hon ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb (ACYP). Hyrwyddo ymddygiad a phresenoldeb cadarnhaol yw un o'r prif ffyrdd o wella dysgu, cyrhaeddiad a chyfleoedd plant a phobl ifanc. Nod y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Ymddygiad a Phresenoldeb yw sicrhau bod plant a phobl ifanc yng Nghymru yn cael y cymorth a'r arweiniad sydd eu hangen arnynt er mwyn gwireddu eu potensial yn yr ysgol.

Mae angen i'r Cynllun Gweithredu gael ei ystyried ochr yn ochr â'r modd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mynd i'r afael â chynnwys a chynorthwyo disgyblion fel y nodir yn y canllawiau yng Nghylchlythyr 47/2006. Yn ogystal â rhoi cyngor, amlinellir hefyd y cyfrifoldebau er mwyn cynnal lefelau uchel o bresenoldeb ac ymddygiad cadarnhaol mewn ysgolion a'r angen i gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol gan gynnig iddynt gyfle cyfartal i gyrraedd eu potensial. Nod y Cynllun Gweithredu yw adeiladu ar y canllawiau hyn drwy'r ymateb i'r argymhellion. Bwriad y camau gweithredu yn y ddogfen hon yw cryfhau'r gwaith sydd eisoes ar y gweill gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau lleol ac ysgolion wrth wella a hyrwyddo ymddygiad a phresenoldeb cadarnhaol.

## 1.1 Y Cefndir

Ym mis Mawrth 2006, gwnaeth y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ymrwymiad i gynnal Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb (ACYP) er mwyn cefnogi gweithgarwch sydd eisoes yn bod ac i ddatblygu a llywio'r modd y dylid ymdrin â'r materion heriol hyn yn y dyfodol. Crëwyd grŵp Llywio i ymgymryd â'r Adolygiad ac ymysg yr aelodau roedd cynrychiolwyr o grwpiau rhanddeiliaid allweddol ledled Cymru. Rhoddwyd pedair tasg benodol i'r Grŵp Adolygu, sef:

- a. Archwilio sut y gellir cefnogi a chynnwys rhieni, plant a phobl ifanc a'r gymuned gyfan yn fwy effeithiol er mwyn hybu ymddygiad a phresenoldeb cadarnhaol yn yr ysgol.

- b. Nodi arfer effeithiol o ran hybu ymddygiad a phresenoldeb cadarnhaol a sut y gellid lledaenu'r arfer hwn a'i ymgorffori mewn ysgolion ac awdurdodau lleol ledled Cymru.
- c. Nodi'r defnydd effeithiol o bartneriaethau amlasiantaethol wrth fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag ymddygiad a phresenoldeb gwael mewn ysgolion yng Nghymru, gan gynnwys ystyried modelau rhanbarthol.
- d. Nodi darpar ddeddfwriaeth newydd, ar ffurf Mesurau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y gellid ceisio gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol ar eu cyfer o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a fyddai'n helpu i hybu ymddygiad cadarnhaol a gwella presenoldeb yn ysgol, gan gynnwys ystyried yr addysg a ddarperir i ddisgyblion sydd wedi'u gwahardd yn benodol.

Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym mis Mai 2008 ac roedd yn cynnwys 19 o argymhellion craidd a 73 o argymhellion ategol.

## 1.2 Y Weledigaeth

Nod y Cynllun Gweithredu fydd effeithio ar fywydau plant a phobl ifanc drwy sefydlu dulliau a phrosesau newydd i wella ein ffordd o hyrwyddo ymddygiad a phresenoldeb cadarnhaol a helpu i sicrhau mwy o gysondeb ledled Cymru. Bwriad hyn, yn ei dro, yw gwella'r ffordd y caiff plant a phobl ifanc eu meithrin a'u cynorthwyo er mwyn eu harwain ar hyd eu taith addysgol a'u cynorthwyo i wireddu eu potensial addysgol.

Dogfen 'fyw' fydd y Cynllun Gweithredu a bydd ar gael i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru. Caiff ei diweddarau'n rheolaidd a bydd y broses o ymgynghori yn mynd yn ei blaen yn barhaus. Drwy hyn, y bwriad yw cynnal deialog barhaus a chaniatáu hyblygrwydd er mwyn medru addasu'n hawdd i ddatblygiadau yn y lluo o fentrau cysylltiedig.

Rhaid i'r Cynllun Gweithredu gael ei integreiddio'n llawn yn y polisi eang ar gyfer ysgolion yng Nghymru, sef y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion. Rhaid iddo, yn arbennig, ddilyn y weledigaeth o ddiwygio ar dair lefel.

### 1.3 Crynodeb o'r Prif Gamau Gweithredu

Y brif flaenoriaeth a nodwyd yn ystod y broses adolygu ar gyfer ACYP oedd hyfforddi a datblygu. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod pwysigrwydd hyfforddi a datblygu ac, mewn ymateb i'r argymhellion ar hyfforddiant, mae wedi cynnig ffordd ymlaen yn Atodiad B, Ymateb Trwy Hyfforddi a Datblygu: Ymateb i'r Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb (ACYP). Mae'r agenda hyfforddi yng Nghymru yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd a bydd y papur hwn yn cael ei ystyried yn rhan o'r broses honno. Bydd yr argymhellion mewn perthynas â hyfforddi ac ymateb Llywodraeth y Cynulliad yn flaenoriaeth i'r Grŵp Llywio sy'n goruchwylio'r Cynllun Gweithredu.

Mae natur y dasg o wella ymddygiad a phresenoldeb yn golygu bod y gwaith yn mynd ymhell y tu hwnt i furiau'r ysgol ac yn ehangach na chymryd camau uniongyrchol ynghylch ymddygiad a phresenoldeb. Amlygir hyn gan y ffaith bod yr adolygiad yn cynnwys nifer mawr o argymhellion sy'n cwmpasu agweddau amrywiol iawn megis lle'r ysgol yn y gymuned, rôl y rhieni, gwaith rhyngasiantaethol, addysgu a dysgu. Ceir yn y Cynllun Gweithredu felly, o reidrwydd, nifer mawr o gamau gweithredu. Gwelir yn Atodiad A grynoded o'r holl gamau i'w cymryd ac mae dogfen ar wahân ar wefan Llywodraeth y Cynulliad sy'n dangos sut y mae'r rhain yn ymateb i'r argymhellion. Dyma'r prif gamau:

- Lluio Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan a fyddai'n cynnwys diwygio'r codau presennol ynghylch presenoldeb a llunio canllawiau ar fonitro a dadansoddi absenoldebau gan sicrhau bod cyswllt rhyngddynt â mentrau perthnasol megis y Cynllun Gweithredu ar gyfer Priodasau Dan Orfod.
- Lluio canllawiau ar Ymddygiad mewn Ysgolion: Dulliau Diogel ac Effeithiol o Ymyrryd a fyddai'n cwmpasu ymyriadau corfforol, pwerau newydd i chwilio am arfau a deddfwriaeth newydd ar ddisgyblu.
- Adolygu'r ddarpariaeth o ran Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS), gan gynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion.



- Creu tudalennau ar y we ar Ymddygiad a Phresenoldeb yn gysylltiedig â thudalennau ar y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion ac Addysgeg.
- Sefydlu Rhwydwaith Timau Cymorth Ymddygiad.
- Llunio canllawiau ar ddefnyddio symudiadau wedi'u rheoli yn effeithiol.
- Casglu tystiolaeth o arferion awdurdodau lleol a'u heffeithiolrwydd mewn meysydd allweddol er mwyn llywio datblygiadau i'r dyfodol a thargedu adnoddau. Llunio adroddiad sy'n coladu'r canlyniadau ac yn cynnig ffordd ymlaen.
- Gweithio gydag Estyn i adolygu'r trefniadau arolygu yng ngoleuni'r argymhellion yn rhan o ddatblygiadau Estyn.
- Sicrhau bod y gwaith o ddatblygu Fframwaith Datblygiad Proffesiynol ar gyfer staff addysgu yn ymdrin yn ddigonol â'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer agweddau penodol ar hybu ymddygiad a phresenoldeb cadarnhaol.
- Sefydlu cynlluniau peilot a phrosiectau ymchwil eraill i'w defnyddio'n sail wrth weithredu ar nifer o'r argymhellion;
- Cynnwys plant a phobl ifanc ym mhob agwedd ar y gwaith, gan gynnwys datblygu dulliau gweithredu a'u rhoi ar waith, gwerthuso pa mor effeithiol ydynt a'u hadolygu yng ngoleuni'r canfyddiadau.
- Canolbwyntio ar lythrennedd fel un o'r prif flaenoriaethau drwy ddwyn ynghyd yr amryw lynnau gwaith ar draws yr adran a chan sicrhau eu bod yn adlewyrchu safbwyntiau sy'n cael eu coleddu ar hyn o bryd ynghyd ag arferion da a hefyd eu bod yn parhau'n effeithiol ac yn cydweddu â pholisïau eraill.

Mae crynodeb o'r holl gamau gweithredu i'w weld yn Atodiad A.

## 2. Nodau ac Amcanion

### 2.1 Y Prif Nodau

Prif nod y Cynllun Gweithredu yw gwella profiadau addysgol plant a phobl ifanc. O fewn hynny, ceir nifer o nodau penodol eraill:

- Cynorthwyo awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau dysgu eraill a'u partneriaid i ddarparu addysg sy'n effeithiol ac yn gynhwysol drwy ddatblygu prosesau, deunyddiau a deddfwriaeth sy'n briodol.
- Cynnwys plant a phobl ifanc yn llawn yn y broses o wneud penderfyniadau.
- Gwella presenoldeb mewn ysgolion.
- Gwella ymddygiad mewn ysgolion a lleoliadau dysgu eraill.
- Sicrhau bod plant y tu allan i'r ysgol yn derbyn addysg sy'n briodol i'w hanghenion.
- Gwneud ysgolion yn lle diogelach i fyfyrwyr ac athrawon fel ei gilydd.
- Sicrhau y gŵyr y myfyrwyr a'u teuluoedd pa gymorth a allai fod ar gael iddynt os cânt eu gwahardd.
- Cydgrynhoi'r gwaith sy'n mynd yn ei flaen i wrthsefyll bwlio.
- Parhau i ddatblygu rôl cynghorau ysgol a ffurfiau eraill o ymgynghori â phlant a phobl ifanc.
- Sicrhau y gŵyr pob plentyn a pherson ifanc at bwy i droi yn yr ysgol os oes ganddo broblem.
- Datblygu'r cymorth sydd ar gael i rieni y mae gan eu plant broblemau â'u hymddygiad.
- Nodi'n gynnar y plant a'r bobl ifanc hynny y mae angen cymorth arnynt a threfnu cymorth priodol ar eu cyfer.
- Nodi'n gynnar y rhesymau nad yw plant a phobl ifanc yn mynd i'r ysgol a threfnu cymorth priodol ar eu cyfer.
- Gwella lefelau llythrennedd plant.
- Gwella'r modd y caiff rhieni a gofalwyr eu cynnwys yng ngwaith yr ysgol a'r dysgu.

- Sicrhau bod yr wybodaeth sydd ei hangen ar blant a phobl ifanc a'u teuluoedd ynghylch eu hawliau, cyfrifoldebau o ran cael addysg a'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt o fewn cyrraedd hawdd.
- Sicrhau bod cwnsela ar gael yn yr ysgol i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru.
- Gwella'r broses o drosglwyddo o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd.
- Gofalu am iechyd a lles emosiynol pob myfyriwr.
- Creu gwasanaeth cymorth i fyfyrwyr - rhywun sydd â gofal am ymddygiad a phresenoldeb y gall plant a phobl ifanc siarad ag ef neu hi.
- Sicrhau bod pob athro yn ymwybodol o wahanol fathau o ymddygiad.
- Sicrhau bod pob athro ac aelodau eraill o staff yr ysgol yn gallu gweithio'n effeithiol ac yn gadarnhaol gyda'u myfywrwyr a'u bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth i weld lle mae problemau'n bodoli mewn perthynas ag ymddygiad a phresenoldeb ynghyd â'r gallu i ddelio â nhw.
- Sicrhau bod gan athrawon ac aelodau eraill o staff yr ysgol rywun i droi ato os bydd angen cymorth arnynt.

Nod y Cynllun Gweithredu yw sicrhau bod yr un cyfle ar gael i bob plentyn a pherson ifanc fanteisio ar wasanaethau addysg ym mhob cwr o Gymru. Canolbwyntia ar blant agored i niwed, er enghraifft, plant sy'n derbyn gofal, er mwyn sicrhau cyfle cyfartal. Nod y camau gweithredu yw cael effaith gadarnhaol ar fywydau plant a phobl ifanc fel y cânt oll yr un cyfleoedd. Mae'n hollbwysig felly bod sicrhau cydraddoldeb i bawb yn cael ei ystyried o ran y ddarpariaeth a gynigir wrth roi'r camau gweithredu ar waith, er enghraifft, yr ystyrir effaith y camau hyn ar bobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig a gofynion ieithyddol plant a phobl ifanc.

## 2.2 Hawliau Plant a Phobl Ifanc

Ers 2004, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi seilio ei holl bolisïau ar gyfer plant a phobl ifanc 0-25 oed ar hawliau. Mae hyn yn ei dro yn deiluo o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r

Plentyn a'i brotocolau cysylltiedig, y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Deddf Hawliau Dynol 1998, a'r Gyfarwyddeb a'r Canllawiau ar Ymestyn Hawliau: Gwasanaethau a Chymorth i Bobl Ifanc yng Nghymru 2002.

Nod y Cynllun Gweithredu yw cyfrannu at gyflawni Saith Nod Craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Plant a Phobl Ifanc sy'n seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Diben y nodau craidd hyn yw sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc:

- Yn cael dechrau da mewn bywyd.
- Eu bod yn cael amrywiaeth cynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu.
- Eu bod â'r iechyd gorau posibl heb gamdriniaeth, erledigaeth a cham-fanteisio.
- Eu bod yn cael y cyfle i fanteisio ar weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol.
- Y gwrandewir arnynt, y cânt eu trin â pharch, ac y cydnabyddir eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol.
- Bod ganddynt gartref diogel a chymuned sy'n cefnogi iechyd a lles corfforol; ac
- Na fydd tlodi yn eu rhoi dan anfantais.

Wrth roi'r Cynllun Gweithredu ar waith y nod fydd mynd i'r afael â'r nodau craidd hyn mewn modd sy'n gytbwys gan wneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i fywydau plant a phobl ifanc.

Bydd ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb yn sicrhau bod y ddeialog a dechreuwyd â phlant a phobl ifanc yn ystod yr Adolygiad yn parhau. Y cam cyntaf fydd rhoi gwybod i'r plant a'r bobl ifanc sut mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen. Yn dilyn hynny, bydd y Llywodraeth yn holi'r plant a'r bobl ifanc am eu barn ynghylch rhoi rhai camau gweithredu penodol o'r cynllun ar waith yn ogystal â chyfeiriad bras y Cynllun Gweithredu. Gwneir hyn drwy ddefnyddio mecanweithiau sydd eisoes yn bod megis cynghorau ysgol, y Ddraig Ffynici a'r fforymau ieuenctid yn ogystal ag ymgynghoriadau penodol lle bo'n briodol, er enghraifft, drwy'r Timau Cymorth Ymddygiad. Ymgysylltir â phlant a phobl ifanc yn unol â'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2007.

Byddai rhoi cychwyn ar bŵer yn Neddf Addysg ac Arolygiadau 2006 a fyddai'n ei gwneud hi'n ofynnol i ysgolion ymgynghori â'u disgyblion wrth ddatblygu eu polisiau ymddygiad, yn gyfrwng i ysgolion wella eu prosesau o gynnwys plant a phobl ifanc wrth ymdrin ag ymddygiad. Ymgynghorir ar y pŵer hwn ac agweddau eraill ar ddisgyblaeth sydd yn Neddf Addysg ac Arolygiadau 2006 yn ystod haf 2009.

### **2.3 Cymru'n Un**

Ceir yng Nghytundeb Cymru'n Un agenda gyfredol y llywodraeth ar gyfer tymor y Cynulliad hwn. Mae Cymru'n Un yn cydnabod bod addysg yn grymuso a thrwy'r agenda flaengar hon, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i roi i blant a phobl ifanc Cymru addysg o'r radd flaenaf a, thrwy weithio gyda darparwyr addysg, ymarferwyr a rhieni, yr ysgolion gorau posibl ar gyfer y dyfodol. Mae gan y Cynllun Gweithredu rôl i'w chwarae wrth gefnogi'r ymrwymadau hyn.

### **2.4 Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith**

Nodir yn *Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith* weledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer dysgu a'r angen i sicrhau bod pob plentyn yn gwireddu ei botensial llawn. Ceisia'r Cynllun Gweithredu, drwy'r ymateb i'r argymhellion sydd yn yr adroddiad, gefnogi amcanion Strategaeth Y Wlad sy'n Dysgu, yn arbennig:

- Rhoi i bobl ifanc y cychwyn gorau posibl i'w bywyd.
- Hybu cynhwysiant mewn addysg a dysgu.
- Mynd i'r afael â chyfleoedd addysgol a chodi safonau mewn ysgolion.
- Sicrhau bod pob plentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
- Sicrhau bod gwasanaethau yn diwallu anghenion pobl ifanc.
- Ymestyn a gwella galluoedd ein gweithlu sy'n dysgu.
- Datblygu sgiliau a gwybodaeth ein gweithlu sy'n dysgu.
- Gwella gwasanaethau a threfniadau amddiffyn ar gyfer plant a phobl ifanc.
- Hybu cyfle cyfartal i bob dysgwr.

### 3. Adnoddau

Bydd cyllid penodol ar gael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynorthwyo â'r gwaith o roi nifer o gamau gweithredu gwahanol y Cynllun ar waith, gan gynnwys cynlluniau peilot a phrosiectau ymchwil a datblygu deunyddiau a chanllawiau. Ystyrir hefyd addasu'r defnydd cymwys y gellir ei wneud o'r Gronfa Ysgolion Gwell at y dyfodol er mwyn rhoi agweddau eraill o'r Cynllun ar waith. Bydd gweithredu'r Cynllun yn golygu sicrhau bod llawer o'r camau yn cael eu cymryd ar y cyd â nifer mawr o'r mentrau cysylltiedig gan ddefnyddio'r cyllid sydd wedi'i neilltuo ar gyfer y datblygiadau hynny yn effeithiol. Fe'u nodir yn Adran 4 isod.

## 4. Strategaethau Cysylltiedig

### **Cyswllt â Mentrau Allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru**

Y **Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion** yw'r polisi eang ar gyfer addysg o oedran ysgol gorfodol i Gymru a phwysleisia'r angen i sicrhau bod unigolion yn dysgu cymaint ag y bo modd er mwyn cyfoethogi eu bywydau, ehangu eu cyfleoedd a sicrhau manteision sylweddol i'w teuluoedd a'r gymuned ehangach. Mae'r Fframwaith wedi'i seilio ar bum thema graidd gan gynnwys diwylliant o berfformio ar lefel uchel sydd, yn ei dro, yn seiliedig ar gysniad o ddiwygio ar dair lefel sef Llywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau lleol ac ysgolion.

Mae'r Fframwaith yn rhoi lle canolog i wella deilliannau dysgu a lles plant a phobl ifanc. Drwy broses o hunanwerthuso caiff strategaethau ymddygiad a phresenoldeb eu hasesu a'u gwella a thrwy ddatblygu cymunedau dysgu proffesiynol, gall ysgolion ac ymarferwyr weithio mewn partneriaeth ar faterion sy'n ymwneud ag ymddygiad a phresenoldeb.

Caiff cyfranogiad disgyblion ei ystyried yn un o brif linyddau'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion gan sicrhau bod plant a phobl ifanc, sef y prif randdeiliaid, yn cael eu cynnwys yn llawn ym mhob agwedd ar wella ysgolion ac ar bob lefel o fywyd yr ysgol drwy fecanweithiau megis y Cyngor Ysgol a'i is-bwyllgorau, Disgybl-Llywodraethwyr Cyswllt, Ysgolion Iach ac Eco-ysgolion.

Drwy **Lwybrau Dysgu 14-19** nod Llywodraeth y Cynulliad yw y bydd 95% o bobl ifanc, erbyn y byddant yn 25 oed, yn barod i ymgymryd â gwaith lle bo gofyn am lefel uchel o sgil neu gwrs addysg uwch erbyn 2015 drwy drawsnewid yr opsiynau a'r cyfleoedd i bobl ifanc. Caiff hyn ei gyflawni drwy ehangu'r dewis a'r hyblygrwydd er mwyn diwallu anghenion dysgwyr a datblygu'r sgiliau ehangach sydd eu hangen arnynt yn eu bywyd a'u gwaith. Drwy gynnig rhagor o opsiynau drwy raglenni sy'n rhoi mwy o ddewis a hyblygrwydd i bobl ifanc rhwng 14 a 19 oed, bwriad Lwybrau Dysgu yw darparu cwricwlwm sy'n gweddu'n well i anghenion pobl ifanc ac sydd felly yn ennyn mwy o ddiddordeb ynddynt mewn addysg. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at wella lefelau presenoldeb, lleihau achosion o gamymddwyn a gwaharddiadau a gwella lefelau cadw pobl ifanc yn yr ysgol.

Mae'r cyswllt rhwng addysgeg dda ac ennyn diddordeb plant a phobl ifanc mewn addysg yn amlwg. Nod y **Fenter Addysgeg** yw gwella deilliannau dysgwyr drwy wella sgiliau, gwybodaeth ac arferion ymarferwyr ym maes addysgeg. O ganlyniad i'r ffocws y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei roi ar addysgeg rhoddir cymorth i ymarferwyr wrth iddynt ddatblygu eu harferion proffesiynol er mwyn gwella'r addysgu a'r dysgu. Mae'r model ar gyfer addysgeg effeithiol yn pwysleisio tair elfen sy'n cydblethu ac sy'n cyfrannu at sicrhau'r deilliannau gorau i ddysgwyr a'u lles. Yr elfennau hyn yw'r amgylchedd dysgu, y broses ddysgu a'r strategaethau addysgu.

Bydd anghenion y dysgwr unigol yn ganolog i'r addysgeg fwyaf effeithiol a thrwyddi cynigir cyfleoedd addysgu a dysgu a fydd yn ysgogol ac yn gynhwysol eu natur gan ymarferwyr sy'n hyderus wrth ddefnyddio ystod eang a hyblyg o strategaethau i gymell ac ennyn diddordeb pob dysgwr. Bydd y ffocws ar addysgeg felly yn defnyddio'r enghreifftiau a'r strategaethau mwyaf effeithiol i reoli ymddygiad disgyblion er mwyn hybu dysgu ac addysgu.

Mae'r ddogfen **Darparu Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru: Lleihau cyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru** yn cynnwys cynigion i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru ac mae'n cefnogi argymhellion ACYP drwy ymyrryd yn gynnar a chynnig cymorth personol dwys. Mae'r Prosiect Cyrraedd y Nod o dan Gronfa Gymdeithasol Ewrop yn cynnwys elfen sy'n anelu at ddatblygu systemau ac adnoddau er mwyn cynorthwyo â chanfod ac ymyrryd yn gynnar gyda phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn ogystal â hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr ar ddulliau o ymgysylltu ag eraill. Bydd y prosiect hefyd yn cynnwys datblygu modiwl ar gyfer Anogwyr Dysgu a phhecyn hyfforddi er mwyn canolbwyntio mwy ar weithio gyda phlant a phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant neu sydd mewn perygl o ddatblygu'n blant a phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

**Mae'r Cynllun Gweithredu Tlodi Plant (2006)** yn manylu ar y cynigion y bwriedir iddynt gynorthwyo i fodloni amcanion y strategaeth tlodi plant. Cafodd hyn ei ategu yn Agenda Cymru'n Un gydag ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu atebion yn benodol i Gymru. Mae dileu tlodi plant a gwella cyfleoedd bywyd



plant a phobl ifanc yng Nghymru yn flaenoriaethau allweddol i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae cyflawniad addysgol yn allweddol i'r amcan hwnnw.

**Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc a Chynlluniau Plant a Phobl Ifanc** yw'r prif bolisi eang yng Nghymru i sicrhau bod gwasanaethau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc yn cael eu cynllunio a'u comisiynu'n effeithiol. Bydd y trefniadau sy'n bodoli i wahanol asiantaethau weithio gyda'i gilydd a nodir yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Ymddygiad a Phresenoldeb yn cael eu rhoi ar waith yn y cyd-destun hwn a thrwy ystyried y 22 Cynllun Plant a Phobl Ifanc sydd bellach yn eu lle. Mae'r dulliau i'w defnyddio i hybu ymddygiad a phresenoldeb cadarnhaol wedi'u nodi yn Nod Craidd 2 y Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc.

Yn ogystal â hynny mae cyswllt rhwng y Cynllun Gweithredu hwn a nifer mawr o fentrau eraill, gan gynnwys:

- Cychwyn Cadarn.
- Cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant rhwng 3 a 7 oed.
- Yr adolygiad o anghenion addysgol arbennig.
- datblygu cyfrifiad blynyddol newydd er mwyn casglu gwybodaeth am blant a phobl ifanc sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol.
- Cynllun Gweithredu Rhianta.
- Dulliau penodol sy'n cael eu datblygu ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (er enghraifft, plant sy'n derbyn gofal, disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol a throseddwy'r ifanc).
- Dulliau gwrth-fwlio.
- Cynllunio i drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.
- Datblygu ysgolion bro.
- Cyflwyno Cwricwlwm Cenedlaethol diwygiedig o fis Medi 2008 ymlaen, yn arbennig Addysg Bersonol a Chymdeithasol.
- Codi Cyrhaeddiad a Safonau Addysgol Unigolion yng Nghymru (Rhagori).
- Cynllun Gweithredu ar gyfer Priodasau dan Orfod.
- Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru.
- Strategaeth Troseddwy'r Ifanc Cymru Gyfan.
- Adolygiad o Ddiogelu Plant sy'n Agored i Niwed.

Cynllun Gweithredu yr  
Adolygiad Cenedlaethol  
o Ymddygiad a  
Phresenoldeb (ACYP)

Mawrth 2009

Dogfen Wybodaeth  
Rhif: 076/2009

- Strategaeth Datblygu Gweithlu Plant a Phobl Ifanc.
- Ymestyn Hawliau: Gwasanaethau a Chymorth i Bobl Ifanc o 11 i 25 Oed yng Nghymru.
- Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid: Cyfarwyddiadau a Chanllawiau ar Ymestyn Hawliau 2002.
- Y Marc Ansawdd Cynhwysiant sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan grŵp cynhwysiant Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru.
- Yr adolygiad o'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth.
- Y Strategaeth Cwnsela mewn Ysgolion.
- Y Fframwaith Asesu Cyffredin.
- Y Gwasanaeth Eirioli Arbenigol Integredig.
- Y Strategaeth ar gyfer Nyrsys Teulu.

## Gwella Llythrennedd

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod pwysigrwydd gwella sgiliau llythrennedd. Gall lefelau isel o lythrennedd arwain yn y pen draw at allgáu cymdeithasol, economaidd a diwylliannol. Mae methu â darllen ac ysgrifennu yn brofiad sy'n ynysu'r unigolyn dan sylw ac yn aml bydd yn arwain at ddadurthio, ymddieithrio ac ymdeimlad o fethiant neu israddoldeb ymhlith plant a phobl ifanc. Mae wedi'i gysylltu â rhagolygon gwael o ran cael swydd a chanlyniadau gwael o safbwynt cymdeithasol. Mae sicrhau ein bod yn codi lefelau llythrennedd a'n bod yn rhoi i bob plentyn bob cyfle i fod yn llythrennog a, thrwy hynny, ddod yn ddinesydd cymwys a hyderus, wrth wraidd agenda cyfiawnder cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n ganolog i'r Strategaeth Tlodi Plant, Rhaglenni Cyfranogiad a Hawliau Plant a Phobl Ifanc a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer yr Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb. Nid yw'n fwriad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddechrau ar fenter newydd; ymgais ydyw yn hytrach i ddwyn ynghyd yr amryw lynnau gwaith ar draws yr adran, gan sicrhau eu bod yn adlewyrchu safbwyntiau sy'n cael eu coleddu ar hyn o bryd ynghyd ag arferion da a hefyd eu bod yn parhau'n effeithiol ac yn cydweddu â pholisïau eraill.

## 5. Rolau a Chyfrifoldebau

Er mwyn i'r Cynllun Gweithredu fod yn effeithiol, mae angen creu partneriaethau amlasiantaethol rhwng nifer o wahanol gyrff a grwpiau a disgwylir hefyd i Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc weithio ar faterion yn ymwneud ag ymddygiad a phresenoldeb. Mae'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yn crybwyll dull o ddiwygio ar dair lefel sef Llywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau lleol ac ysgolion. Dylai'r rolau gydategu ei gilydd a hwyluso cyfathrebu. Trafodir y rolau a'r cyfrifoldebau isod:

### **Llywodraeth Cynulliad Cymru**

Rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod eu polisiau a'u mentrau yn cydweddu â'i gilydd a'u bod yn defnyddio gwybodaeth ac arbenigedd ymarferwyr addysgu ac arweinwyr, awdurdodau lleol a phlant a phobl ifanc. Rhaid i bolisiau a mentrau gydweddu â'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion ac adlewyrchu amgylchiadau ac anghenion awdurdodau ac ysgolion unigol. Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddwyn ynghyd yr holl arferion gorau a sicrhau, drwy ymgynghori a chydweithio, bod polisi yn arwain at wella effeithiolrwydd ac yn sicrhau y manteisir ar bob cyfle posibl.

### **Awdurdodau Lleol**

Mae angen i awdurdodau lleol gydgysylltu'r ysgolion yn eu hardal er mwyn eu galluogi i gysylltu â'i gilydd a chydweithio er mwyn manteisio ar bob cyfle i rannu arferion da. Mae angen i awdurdodau lleol felly gynorthwyo ysgolion gyda'r gwaith o'u rhedeg o ddydd i ddydd yn ogystal â chyfrannu at ddatblygu polisi yn genedlaethol. Drwy'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc a Chynlluniau Plant a Phobl Ifanc, dylai awdurdodau lleol sicrhau bod gwasanaethau lleol i blant a phobl ifanc yn cael eu cynllunio a'u bod yn mabwysiadu dull amlasiantaethol effeithiol o weithio.

### **Ysgolion**

Ysgolion yw'r gwasanaeth y mae bron i bob plentyn a pherson ifanc yn ei brofi. Yr ysgol yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer materion yn ymwneud â phlant a phobl ifanc. Dylid dynodi un aelod o'r staff yn yr ysgol y gall plant a phobl ifanc droi ato os bydd ganddynt broblemau. Dylai ysgolion sicrhau hefyd bod eu cynghorau ysgol yn

mynd i'r afael yn effeithiol ag anghenion eu disgyblion ac y caniateir i ystod eang o blant a phobl ifanc gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ar draws holl feysydd yr ysgol. Gellir ymdrin â hyn drwy gyngor yr ysgol a thrwy ffyrdd eraill gan gynnwys, yn ddelfrydol, unigolion a chanddynt brofiad blaenorol o weithio gyda disgyblion â phroblemau gyda'u hymddygiad a'u presenoldeb. Mae angen i ysgolion fynd ati i weithio gyda rhieni i sicrhau yr ymdrinnir yn briodol â phroblemau'n gysylltiedig ag ymddygiad a phresenoldeb. Dylai hyn oll ddigwydd ochr yn ochr â gweithio ag amryw asiantaethau er mwyn gwella lles plant a phobl ifanc.

### **Plant a Phobl Ifanc**

Mae'r Rheoliadau Cyngorau Ysgol (Cymru) (2006) yn pennu bod yn rhaid i bob ysgol yng Nghymru gael cyngor ysgol i gynrychioli barn disgyblion ynghylch materion sy'n effeithio arnynt yn yr ysgol. Mae cael plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn penderfyniadau a dylanwadu ar ansawdd y dysgu ac amgylchedd yr ysgol yn allweddol wrth sicrhau bod profiadau disgyblion ynghylch addysg yn rhai cadarnhaol.

### **Rhieni**

Mae cyfraniad a chefnogaeth rhieni yn hanfodol er mwyn gwella a chynnal ymddygiad a phresenoldeb cadarnhaol. Mae angen i rieni a gofalwyr, disgyblion ac athrawon oll weithio mewn awyrgylch lle bydd y naill yn parhau'r llall a lle bydd pawb yn deall yn glir eu hawliau eu hunain yn ogystal â hawliau pobl eraill. Gall rhieni a gofalwyr, plant a phobl ifanc, ac ysgolion wneud gwahaniaeth ac adeiladu cymunedau drwy weithio mewn partneriaeth. Mae'r bartneriaeth rhwng y cartref a'r ysgol yn swyddogaeth ac yn gyfrifoldeb i ysgolion, rhieni a'r gymuned fel ei gilydd er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn manteisio i'r eithaf ar eu hysgol a'r gyfundrefn addysg. Mae creu partneriaethau effeithiol yn golygu creu amgylchedd agored lle mae cyfathrebu rhwng y naill bartner a'r llall a lle gall rhieni gymryd rhan flaenllaw ym mywyd yr ysgol. Mae angen datblygu continwwm o ddolenni cyswllt rhwng ysgolion, rhieni a chymunedau.

## **Partneriaid eraill**

Rhaid cynnwys cyrff cenedlaethol, rhanddeiliaid a'r sector gwirfoddol ar bob lefel o'r gwaith o ddatblygu polisi yn ogystal ag ymgysylltu ag ymarferwyr. Rhaid iddynt gefnogi mentrau a gweithio'n agos gyda phartneriaid er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cydblethu. Maent yn adnodd gwerthfawr ac mae eu cyfraniad i fywydau plant a phobl ifanc yn fawr; mae'n hanfodol bod gwahanol asiantaethau yn gweithio gyda'i gilydd er lles plant a phobl ifanc a'r gymuned ehangach. Cafodd y Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc eu creu i ddatblygu'r dull amlasiantaethol hwn o weithio ac i hybu cydweithio wrth gynllunio ar lefel awdurdodau lleol.

## 6. Cyflwyno'r Cynllun Gweithredu

Mae wyth llinyn allweddol i'r Cynllun Gweithredu ac mae pob llinyn yn adlewyrchu prif agweddau'r argymhellion a gyflwynir yn yr Adolygiad:

- Presenoldeb.
- Ymddygiad.
- Hawliau Plant a Phobl Ifanc.
- Ymyrryd yn Gynnar.
- Llythrennedd.
- Gweithio ar lefel amlasiantaethol a rhyngasiantaethol.
- Effeithiolrwydd Ysgolion.
- Hyfforddi a Datblygu.

Nodir y camau gweithredu ar gyfer pob un o'r meysydd hyn yn Adran 7.

### 6.1 Deddfwriaeth

Mae goblygiadau o ran deddfwriaeth i nifer o argymhellion ACYP. Yn eu plith y mae gwneud darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi'u gwahardd yn ofyniad statudol a diwygio'r drefn o apelio yn erbyn gwaharddiadau (argymhellion K5 a K6). Bydd yr argymhellion hyn yn cael eu hystyried yn rhan o'r Adolygiad o Addysg Heblaw yn yr Ysgol a bydd yn cynnwys asesu goblygiadau ymarferol ac ariannol unrhyw ddeddfwriaeth newydd.

### 6.2 Tudalennu Ymddygiad a Phresenoldeb ar y We

Er mwyn rhoi gwybod i randdeiliaid am hynt y Cynllun a hefyd fel cyfrwng i rannu arferion da, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn creu tudalennau penodol ar y we ar ymddygiad a phresenoldeb. Bydd y rhain i'w gweld o fewn y tudalennau sydd wrthi'n cael eu datblygu ar hyn o bryd ar gyfer y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, sef: [www.sefwales.co.uk](http://www.sefwales.co.uk)

### 6.3 Rheoli Prosiectau, Gwerthuso a Chynaliadwyedd

Oherwydd natur eang yr argymhellion ac, yn sgil hynny, y Cynllun Gweithredu, bydd yn rhaid mabwysiadu gweithdrefnau rheoli prosiect er mwyn ei weithredu. Bydd rhoi'r Cynllun ar waith yn dibynnu ar y camau eraill sy'n cael eu cymryd mewn perthynas â mentrau eraill. Am y rheswm hwn, bydd y Cynllun Gweithredu yn cael ei newid yn rheolaidd i adlewyrchu'r newidiadau a fydd yn digwydd o fewn y mentrau cysylltiedig hynny. Caiff y newidiadau yn y Cynllun eu monitro drwy broses o reoli newid a bydd hyn yn cael ei oruchwylio gan grŵp llywio yn ogystal â hynt y gwaith yn gyffredinol. Cynhelir cyfarfodydd yn rheolaidd i adolygu'r Cynllun Gweithredu er mwyn sicrhau ei fod yn cydweddu â pholisïau a mentrau cyfredol a hefyd er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni'r cerrig milltir penodol. Bydd y Grŵp Llywio hefyd yn rhoi cyngor ar gynnwys y tudalennau ar Ymddygiad a Phresenoldeb ar y we.

Caiff effaith y Cynllun ei gwerthuso drwy gyfuno defnyddio mesurau cenedlaethol eang yn ogystal â gwerthuso camau unigol yn benodol. Bydd y mesurau cenedlaethol eang yn cynnwys lefelau cyrhaeddiad, lefelau presenoldeb a gwaharddiadau, nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant, Monitor Lles Plant i Gymru, canlyniadau PISA ar gyfer llythrennedd ac Arolygiadau Estyn. Bydd elfennau o werthuso yn digwydd hefyd o fewn y cynlluniau peilot a'r gwaith ymchwil a nodir yn adran 6.4 a bydd gwaith yn cael ei wneud yn barhaus i sicrhau bod agweddau ar ymddygiad a phresenoldeb yn cael eu hymgorffori'n rhan o unrhyw werthuso a wneir ar fentrau perthnasol gan Lywodraeth y Cynulliad. O ran y cynlluniau peilot a'r gwaith prosiect, bydd y gwaith gwerthuso gyda phlant a phobl ifanc yn cael ei gynnal yn uniongyrchol.

Er mwyn sicrhau bod y Cynllun Gweithredu yn llwyddo i ddatblygu ystod o fesurau cynaliadwy mae'n rhaid bod ymddygiad a phresenoldeb a chynhwysiant yn fwy cyffredinol yn cael eu hymgorffori yn rhan o fentrau allweddol Llywodraeth y Cynulliad, gan gynnwys y rhai hynny a nodwyd yn Adran 5.

## 6.4 Trosolwg o'r Prif Gynlluniau Peilot a'r Gwaith Prosiect

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i sefydlu cynlluniau peilot a phrosiectau ymchwil eraill i'w defnyddio fel sail wrth weithredu ar nifer o'r argymhellion. Bydd y gwaith hwn yn cael ei rannu'n dri chategori: cynlluniau peilot, prosiectau ymchwil a phrosiectau i ddatblygu canllawiau penodol a deunyddiau ategol. Bydd y cynlluniau peilot yn archwilio a phrofi pa mor effeithiol yw gwaith rhagbaratoadol ym meysydd ymyrryd yn gynnar, gwaith amlasiantaethol, effeithiolrwydd ysgolion a hyfforddi a datblygu er mwyn llywio gwaith yn y dyfodol. Caiff manylion y cynlluniau peilot hyn eu datblygu gan weithgor a'u goruchwyllo gan y Grŵp Llywio. Diben y prosiectau ymchwil fydd casglu gwybodaeth am waith sydd ar y gweill a mentrau sydd eisoes yn bodoli ym meysydd ymyrryd yn gynnar, ymddygiad a gwaith amlasiantaethol. Cesglir tystiolaeth i fesur pa mor effeithiol a chynaliadwy yw'r prosiectau hyn er mwyn hyrwyddo dulliau gweithredu a chysylltu â phrosiectau eraill a fydd yn eu cefnogi, er enghraifft prosiect RHAGORI. Caiff y prosiectau sy'n weddill eu defnyddio i lunio canllawiau a deunyddiau ategol yn y lle cyntaf ar bresenoldeb, ymddygiad a hyfforddi a datblygu.

### Cynlluniau Peilot

Bydd cynlluniau peilot yn cael eu cynnal ledled Cymru er mwyn gwerthuso a datblygu modelau ar gyfer arferion i'w mabwysiadu yn y dyfodol mewn pedwar maes yn bennaf:

- Asesu a chanfod yn gynnar blant agored i niwed a pha gymorth a fyddai'n addas i ddiwallu eu hanghenion.
- Gwaith amlasiantaethol er mwyn gwella'r deilliannau ar gyfer plant agored i niwed a'u teuluoedd.
- Gwella'r cysylltiadau rhwng Unedau Cyfeirio Disgyblion a darpariaeth arall ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol ac ysgolion yn y brif ffrwd; a
- Dynodi gweithiwr proffesiynol arweiniol i ymdrin ag ymddygiad a phresenoldeb ym mhob ysgol (bydd hyn yn rhan o gynllun peilot sydd eisoes wedi'i gynllunio i ystyried Cydgysylltwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol).

Bydd gwerthuso'r cynlluniau peilot hyn yn llywio cyfeiriad mentrau yn y dyfodol yn y meysydd hyn.



## **Prosiectau Ymchwil**

Mae nifer o feysydd hefyd lle mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod bod awdurdodau lleol, Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc ac ysgolion eisoes yn ymgymryd â llawer o waith ond lle nad yw cwmpas y gwaith hwn na'i effeithiolrwydd wedi'i asesu ar lefel Cymru gyfan. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn mynd ati i asesu'r gwaith hwn ac edrych am dystiolaeth a fydd yn dangos bod rhai dulliau penodol yn fwy effeithiol wrth hybu'r prosiectau hyn yn y dyfodol, yn eu plith:

- Grwpiau meithrin.
- Cyfiawnder adferol.
- Gwaith amlasiantaethol gyda phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd; ac
- Ymgysylltu â rhieni.

## **Prosiectau i Ddatblygu Canllawiau a Deunyddiau Ategol**

Bydd nifer o'r camau gweithredu yn y cynllun yn golygu sefydlu prosiectau bach er mwyn datblygu canllawiau a deunyddiau ategol ar gyfer ymarferwyr er mwyn hybu cysondeb a rhannu arferion da.

Tynnodd yr ACYP sylw yn arbennig at yr angen i gefnogi a datblygu rôl y Gwasanaeth Lles Addysg. Bydd dau brosiect cysylltiedig yn cael eu sefydlu i'r diben hwn, y cyntaf ohonynt i ddatblygu Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan a'r ail i ddatblygu dogfen ar arferion da ar ymyrryd yn gynnar gan y Gwasanaeth Lles Addysg.

Bydd hefyd nifer o brosiectau penodol a gaiff eu cynnal ar y cyd â'r Rhwydwaith Timau Cymorth Ymddygiad a sefydlwyd. Dau brosiect allweddol fydd, yn gyntaf, datblygu dogfen arferion da ar ddefnyddio symudiadau wedi'u rheoli yn effeithiol er mwyn osgoi gwahardd ac, yn ail, gweithio ochr yn ochr ag ysgolion i lunio pecyn cymorth i ddatblygu Rhaglenni Cymorth Bugeiliol effeithiol i blant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu gwahardd. Bydd hefyd yn cynnwys arweiniad ar sut y gallai Rhaglenni Cymorth Bugeiliol ryngweithio gyda chynlluniau eraill a allai fod gan y plentyn neu'r person ifanc dan sylw, megis Cynlluniau Addysg Personol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal neu Gynlluniau Addysg Unigol ar gyfer disgyblion â Datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig.

## 7. Trosolwg o'r Cynllun Gweithredu

Y Cynllun Gwaith a'r wyth maes allweddol:

### 7.1 Presenoldeb

#### **Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru:**

- Yn adolygu'r codau presenoldeb er mwyn sicrhau mwy o gysondeb a chwalu rhwystrau i hybu arferion cynhwysol.
- Yn cynnwys y cod presenoldeb yn rhan o becynnau meddalwedd er mwyn sicrhau mwy o gysondeb gyda chodau ledled Cymru.
- Yn cydweithio gyda'r Gwasanaeth Lles Addysg, ysgolion a phlant a phobl ifanc ar lunio Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan a fyddai'n cynnwys diwygio'r codau presennol ynghylch presenoldeb a llunio canllawiau ar fonitro a dadansoddi absenoldebau gan sicrhau bod cyswllt rhyngddynt â mentrau perthnasol megis y Cynllun Gweithredu ar gyfer Priodasau Dan Orfod.
- Yn cynnal seminar ar ddefnyddio data ar bresenoldeb yn effeithiol er mwyn llywio arferion.

#### **Bydd awdurdodau lleol:**

- Ar y cyd â'i gilydd, yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Gwasanaeth Lles Addysg, i lunio Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan a fydd yn cynnwys: codau presenoldeb a chanllawiau cyffredinol ar eu defnyddio, prosesau atgyfeirio, gwaith amlasiantaethol, gweithio gyda rhieni a phlant a phobl ifanc a defnyddio data ar bresenoldeb fel gwybodaeth reoli.

#### **Bydd ysgolion:**

- Yn gweithio gyda'u cynghorau ysgol a'u plant a'u pobl ifanc i ystyried ffyrdd o wella presenoldeb ar gyfer yr adran ar arferion da ar y wefan.
- Yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Lles Addysg er mwyn sicrhau mwy o gysondeb yn y prosesau o atgyfeirio disgyblion nad ydynt yn mynychu'r ysgol.
- Yn defnyddio prosesau trylwyr wrth gasglu data ar bresenoldeb.
- Yn cyfrannu at y Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan.

## 7.2 Ymddygiad

### **Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru:**

- Yn llunio canllawiau ar Ymddygiad mewn Ysgolion: Dulliau Diogel ac Effeithiol o Ymyrryd a fydd yn cynnwys canllawiau ar ymyriadau corfforol, pwerau newydd ar gyfer ymddygiad a disgyblu yn ogystal â phwerau newydd ar gyfer chwilio am arfau.
- Yn adolygu'r ddarpariaeth o ran Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS), gan gynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion.
- Yn rhan o'r Adolygiad o Addysg Heblaw yn yr Ysgol, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn comisiynu gwaith cwmpasu i asesu goblygiadau ariannol y rheoliadau newydd ar wahardd.
- Yn ymgymryd â gwaith dilynol yn sgil yr hyn sy'n cael ei wneud gan Gomisiynydd Plant Cymru i asesu i ba raddau y mae gwaharddiadau anghyfreithlon yn digwydd.
- Yn asesu'r defnydd a wneir o orchmynion rhianta a'u llwyddiant.
- Yn llunio canllawiau ar ddefnyddio symudiadau wedi'u rheoli yn effeithiol er mwyn osgoi gwahardd disgyblion.
- Yn sefydlu Rhwydwaith Timau Cymorth Ymddygiad a fydd yn cyfarfod yn rheolaidd.

### **Bydd Awdurdodau Lleol:**

- Yn rhannu arferion da drwy gyfrwng fforwm trafod sy'n cael ei sefydlu gan grŵp Cynhwysiant Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru a fydd yn cymharu strategaethau a pholisïau Awdurdodau Addysg ar ddewis addysg yn y cartref.
- Yn gwneud gwaith dilynol gydag ysgolion sydd â chyfraddau gwahardd uchel.
- Yn gweithio gyda Llywodraeth y Cynulliad ac ysgolion i geisio dileu achosion o wahardd yn anghyfreithlon.
- Yn ymuno â'r Rhwydwaith Timau Cymorth Ymddygiad sy'n cael ei lansio eleni.

### **Bydd ysgolion:**

- Yn hybu ymysg eu staff ganllawiau ar Ymddygiad mewn Ysgolion: Dulliau Diogel ac Effeithiol o Ymyrryd a fydd yn cynnwys canllawiau ar ymyriadau corfforol, pwerau newydd ar gyfer ymddygiad a disgyblaeth yn ogystal â phwerau newydd ar gyfer chwilio am arfau.

- Yn peidio â gwahardd disgyblion yn anghyfreithlon ac yn gweithio gyda’u Hawdurdod Lleol a Llywodraeth y Cynulliad ar y mater hwn.
- Yn gweithio gyda’u cynghorau ysgol a’u plant a’u pobl ifanc i ystyried ffyrdd o wella ymddygiad ar gyfer yr adran ar arferion da ar y wefan.

### **7.3 Hawliau Plant a Phobl Ifanc**

#### **Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru:**

- Yn llunio canllawiau ar y model newydd o ddarparu gwasanaethau eirioli a fydd yn galluogi Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc i ystyried datblygu gwasanaethau eirioli cyffredinol yn ogystal ag integreiddio gwasanaethau eirioli arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc agored i newid ar sail ranbarthol neu isranbarthol.
- Yn symud yn eu blaen y trafodaethau ar ehangu rôl y Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig er mwyn cynnwys cynnal paneli apêl annibynnol ar gyfer gwaharddiadau. Gallai hyn gynnig cefnogaeth i blant a phobl ifanc sydd am apelio’n annibynnol yn erbyn eu gwaharddiad gan ategu’r cymorth eirioli ar gyfer plant a phobl ifanc i apelio i Dribiwnlysoedd AAA.
- Yn sicrhau bod barn plant a phobl ifanc yn cael ei hystyried wrth drafod datblygiadau a fydd yn effeithio ar gyrff megis: cynghorau ysgol (ysgolion), fforymau ieuencid (awdurdodau lleol) a’r Ddraig Ffyndi (Llywodraeth y Cynulliad).
- Yn defnyddio gwefan y cynghorau ysgol a dulliau eraill o gael barn plant a phobl ifanc ar sut i wella ymddygiad a phresenoldeb a fydd yn cael eu hychwanegu at y tudalennau ar arferion da ar y wefan.
- Yn llunio canllawiau pellach ar faterion yn ymwneud â bwlio.
- Yn llunio Canllawiau ar gyfer Cynghorau Ysgol.
- Yn parhau â’r gwaith o ddiweddarau gwefan y Cynghorau Ysgol.

#### **Bydd awdurdodau lleol**

- Yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cymryd rhan drwy fforymau ieuencid a chyfryngau eraill mewn penderfyniadau sy’n effeithio arnynt.

### **Bydd ysgolion:**

- Yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.
- Yn datblygu rôl eu cyngor ysgol gan ddefnyddio'r wefan ar ei newydd wedd a chanllawiau fel adnoddau.
- Yn hybu ac yn cefnogi mentrau gwrth-fwlio: yr Wythnos Gwrth-fwlio, gwefan Parchu Eraill etc.

## **7.4 Ymyrryd yn gynnar**

### **Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru:**

- Yn asesu ffyrdd o weithio drwy'r Cynllun Gweithredu Rhianta diwygiedig sy'n cynnwys nifer o argymhellion sy'n cyd-fynd â'r Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb.
- Yn parhau â'r gwaith hyfforddi ar gyfer Swyddogion y Cyfnod Sylfaen ar ymddygiad, gan gynnwys dosbarthu'r modiwl ar Ymyrryd yn Gynnar sydd wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.
- Yn parhau â'r gwaith o roi'r Cynlluniau Peilot ar Gwnsela mewn Ysgolion Cynradd ar waith.
- Yn parhau i gyllido Rhaglen Rianta'r Blynyddoedd Rhyfeddol hyd at 2011.
- Yn cyflawni ymrwymiad Cymru'n Un i gynnal ymchwiliad ar ymddieithriad disgyblion.

### **Bydd awdurdodau lleol:**

- Yn rhannu arferion da ar strategaethau ymyrryd yn gynnar ar draws y Gwasanaeth Lles Addysg.
- Yn sicrhau bod staff y Cyfnod Sylfaen yn derbyn hyfforddiant ar ymyrryd yn gynnar.

### **Bydd ysgolion:**

- Yn gweithio ochr yn ochr â Gwasanaeth Lles Addysg a gwasanaethau cymorth ymddygiad eu hawdurdod lleol ac asiantaethau eraill er mwyn sicrhau bod problemau'n gysylltiedig â phresenoldeb ac ymddygiad yn cael eu canfod yn gynnar a'u datrys.

## 7.5 Llythrennedd

### **Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru:**

- Yn darparu deunyddiau HMS i ysgolion er mwyn hybu dulliau i'w defnyddio ar lefel ysgol gyfan i godi lefelau llythrennedd.
- Yn parhau i ddarparu Grantiau Ymyrraeth Strategol ar gyfer rhaglenni dal i fyny, canolfannau rhagoriaeth, mentrau wedi'u hanelu at wella sgiliau sylfaenol y tu allan i'r cwricwlwm ffurfiol ac at bobl ifanc yng Nghyfnod Allweddol 4 sydd wedi ymddieithrio.
- Yn gweithio gyda phartneriaid i ddarparu hyfforddiant hygyrch a pherthnasol i athrawon a chynorthwyrwyr addysgu.
- Yn ystyried ymyriadau penodol i'w defnyddio i godi lefelau llythrennedd ymysg bechgyn.

### **Bydd awdurdodau lleol:**

- Yn sicrhau bod deunyddiau ac adnoddau a fydd ar gael drwy Lywodraeth Cynulliad Cymru yn cael eu defnyddio gan gyrrff ac unigolion perthnasol.
- Yn gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i ganfod arferion gorau o ran defnyddio strategaethau llythrennedd prif ffrwd a strategaethau ymyrryd wrth addysgu a chymryd rhan allweddol yn y gwaith o'u lledaenu.

### **Bydd ysgolion:**

- Yn mabwysiadu dulliau o fynd ati i addysgu darllen ac ysgrifennu ar lefel ysgol gyfan.
- Yn ymwybodol o strategaethau prif ffrwd a strategaethau ymyrryd a gwneud penderfyniadau cytbwys ynghylch pa strategaethau fyddai'n gweddu orau i'w hanghenion.
- Yn sicrhau bod gan athrawon a chynorthwyrwyr addysgu gyfleoedd i loywi eu sgiliau a'u gwybodaeth ynghylch y dulliau diweddaraf i'w defnyddio wrth addysgu llythrennedd.
- Yn ceisio cynnwys teuluoedd ac aelodau eraill o'r gymuned yn yr ymdrechion i godi safonau llythrennedd.

## 7.6 Gwaith amlasiantaethol a rhyngasiantaethol

### Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru:

- Yn datblygu tudalennau ar y we ar ymddygiad a phresenoldeb yn gysylltiedig â'r tudalennau ar y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion ac Addysgeg.
- Yn lledaenu'r argymhellion o'r adroddiadau a gomisiynwyd ar drosglwyddo disgyblion ar gyfer 2009/10.
- Yn parhau i gyflwyno'r Strategaeth Cwnsela mewn Ysgolion.
- Yn casglu data ar arferion cyfredol awdurdodau lleol drwy holiadur er mwyn llywio polisi at y dyfodol a thargedu adnoddau.
- Yn ysgrifennu at Gadeiryddion pob Bwrdd Lleol Diogelu Plant er mwyn tynnu sylw at y cyswllt rhwng ymddygiad gwael a phresenoldeb a phryderon ynghylch diogelu plant.
- Yn edrych ar faterion sy'n gysylltiedig â dewis addysg yn y cartref.
- Yn ystyried ac yn gwneud gwaith dilynol fel y bo'n briodol ar argymhellion yr Adolygiad o'r Fframwaith Asesu Cyffredin.
- Yn ystyried yr argymhellion perthnasol yn ystod yr adolygiad nesaf o'r Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc.

### Bydd awdurdodau lleol:

- Yn llunio cyfeiriadur o'u gwasanaethau.
- Yn hwyluso cysylltiadau a phartneriaethau rhwng cymunedau, ysgolion, y sector gwirfoddol a'r Heddlu.
- Yn cyflwyno'r Strategaeth Cwnsela mewn Ysgolion.

### Bydd ysgolion:

- Yn hybu ac yn cefnogi cynlluniau peilot ar gwnsela mewn ysgolion.
- Yn annog creu cysylltiadau o fewn eu cymuned, y sector gwirfoddol a'r Heddlu.

## 7.7 Effeithiolrwydd Ysgolion

### Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru:

- Yn rhan o'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, yn adolygu ac yn cryfhau'r Proffil Effeithiolrwydd Ysgolion mewn ymateb i argymhellion yr ACYP er mwyn canolbwyntio'n fwy ar ymddygiad a phresenoldeb ac agweddau ehangach ar gynhwysiant.
- Yn comisiynu dau adroddiad ar y cynlluniau Trosglwyddo gan Estyn: Bodloni Gofynion Statudol Cynlluniau Trosglwyddo ac Arferion Da a ddatblygwyd gan Awdurdodau Lleol mewn Partneriaeth ag Ysgolion gan ddefnyddio Grant Trosglwyddo CA2-3.
- Yn addasu a chyfieithu deunyddiau ar agweddau cymdeithasol ac emosiynol ar ddysgu (SEAL) mewn perthynas â'r iaith Gymraeg a'r cyd-destun.
- Yn gweithio gydag Estyn i adolygu trefniadau arolygu yng ngoleuni'r argymhellion yn rhan o ddatblygiadau Estyn.
- Yn diweddarau'r Canllawiau ar y Gyfraith i Lywodraethwyr.
- Yn ysgrifennu at bob ysgol yn amlinellu nodau allweddol y Cynllun Gweithredu ac yn tynnu sylw at argymhellion penodol.

### Bydd awdurdodau lleol:

- Yn mynd ati i weithredu'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion.
- Yn monitro arolygiadau Estyn er mwyn cynyddu nifer yr achosion lle caiff unrhyw broblemau'n gysylltiedig ag ysgolion eu canfod yn gynnar.
- Yn hybu dulliau o ddatblygu iechyd a lles emosiynol.

### Bydd ysgolion:

- Yn cydweithio ac yn defnyddio arferion da a gasglwyd er mwyn gwella a diweddarau eu Cynlluniau Trosglwyddo.
- Yn dynodi gweithiwr proffesiynol arweiniol i ymdrin ag ymddygiad a phresenoldeb, yn amodol ar werthuso'r cynllun peilot ar Gydgyssylltwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol.



- Yn ystyried sut yr ânt ati i ddatblygu iechyd a lles emosiynol eu disgyblion a'r defnydd a wnânt o ddulliau tebyg i SEAL.

## 7.8 Hyfforddi a Datblygu

### Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru:

- Yn llunio papur sef 'Ymateb trwy Hyfforddi a Datblygu: Ymateb i'r Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb' a fydd yn cynnig ffordd gydgysylltiedig o weithio er mwyn rhoi'r argymhellion ar hyfforddi mewn perthynas â'r ACYP ar waith yn unol â'r Fenter Addysgeg ac er mwyn ei ymgorffori'n rhan o'r nod o sefydlu Fframwaith Datblygu Proffesiynol. Mae'r papur yn cynnig y byddai hyn ar ffurf continwwm o ddatblygiad proffesiynol gydag argymhellion ACYP yn llywio'r llinyn ar reoli ymddygiad a fyddai, yn ei dro, yn cael ei gysylltu ag agweddau ehangach cynhwysiant a chynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac agweddau ar ddatblygiad plant a hawliau plant a phobl ifanc.
- Yn parhau i gefnogi athrawon drwy'r llinell gymorth ddwyieithog a chyfrinachol i athrawon a gwasanaeth coetsio.
- Yn gwneud gwaith dilynol ar fodiwlau sydd eisoes wedi'u datblygu ar hawliau plant a phobl ifanc i'w defnyddio gydag athrawon.
- Yn dod o hyd i gyrsiau Cynhwysiant Cymdeithasol sydd ar gael mewn prifysgolion yng Nghymru.
- Yn dosbarthu'r ddogfen Dulliau Ymarferol o Reoli Ymddygiad yn yr Ystafell Ddosbarth i fyfyrwyr sy'n derbyn Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon, myfyrwyr sydd yn y cyfnod Sefydlu a'r cyfnod Datblygiad Proffesiynol Cynnar yng Nghymru.
- Yn canfod ac yn argymhell strwythur hyfforddi priodol ar gyfer y Gwasanaeth Lles Addysg ar y cyd ag is-grŵp o reolwyr y Gwasanaeth Lles Addysg.
- Yn sicrhau bod sesiynau blasu ar opsiynau hyfforddi ar gyfer rheoli ymddygiad ar gael i gynrychiolwyr awdurdodau lleol.

### Bydd awdurdodau lleol:

- Yn sicrhau bod eu swyddogion Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar yn cydweithio ag ysgolion a Llywodraeth y Cynulliad wrth ymateb i'r agenda hyfforddi.

- Yn cydweithio ar draws awdurdodau lleol/consortia er mwyn rhannu arferion da a chyfuno adnoddau ar gyfer hyfforddiant ar reoli ymddygiad.

**Bydd ysgolion:**

- Yn sicrhau bod eu mentoriaid Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar yn cydweithio gyda staff yr awdurdodau lleol a Llywodraeth y Cynulliad wrth ymateb i'r agenda hyfforddi a datblygu.
- Yn rhoi blaenoriaeth i hyfforddiant ar reoli ymddygiad yn rhan o'u rhaglenni datblygu staff.

Gallwch weld manylion y Cynllun Gweithredu ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru: [www.cymru.gov.uk/darparwyrdsygu](http://www.cymru.gov.uk/darparwyrdsygu)

**Crynodeb o'r Camau Gweithredu**

Allwedd:	Amserlen	
	Y tymor byr	2009 - 2010
	Y tymor canol	2010 – 2012
	Y tymor hir	Yn parhau

Camau Gweithredu	Amserlen
<b>Presenoldeb</b>	
Bydd Llywodraeth y Cynulliad, mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Lles Addysg, yn llunio Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan	
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ymgynghori â rhanddeiliaid ar ddiwygio a datblygu'r codau presennol mewn perthynas â phresenoldeb ac arferion cofnodi	
<b>Ymddygiad</b>	
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn asesu prosiectau cyfiawnder adferol cyfredol yng Nghymru er mwyn llywio gwaith yn y maes hwn yn y dyfodol	
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cyhoeddi canllawiau ar gyfer ysgolion ar Ymddygiad mewn Ysgolion: Dulliau Diogel ac Effeithiol o Ymyrryd	
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn asesu gwybodaeth a gasglwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru ar wahardd yn anghyfreithlon ac yn gwneud gwaith dilynol gydag awdurdodau lleol yn ei gylch	
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn adolygu'r ddarpariaeth ar gyfer Addysg heblaw yn yr Ysgol, gan gynnwys rôl unedau cyfeirio disgyblion	
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn comisiynu canllawiau ar gyfer ysgolion ar ddefnyddio symudiadau wedi'u rheoli yn effeithiol	

Camau Gweithredu	Amserlen
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn sefydlu Rhwydwaith Timau Cymorth Ymddygiad	
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn llunio Canllawiau Cymru Gyfan ar gyfer Rhaglenni Cymorth Bugeiliol	
<b>Hawliau Plant a Phobl Ifanc</b>	
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn llunio canllawiau ar y model newydd o ddarparu gwasanaethau eirioli ar gyfer Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc	
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu Panel Apelio Annibynnol cenedlaethol yn lle'r rheini sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd gan awdurdodau lleol	
Bydd ymateb Llywodraeth y Cynulliad i Adolygiad ACYP yn parhau â'r ddeialog a gychwynnwyd â phlant a phobl ifanc yn ystod yr Adolygiad	
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i hybu arferion gorau wrth fynd i'r afael â bwlio	
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn datblygu ymhellach rôl cyngorau ysgolion a'u hadnoddau	
<b>Ymyrryd yn Gynnar</b>	
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn llunio ac yn dosbarthu modiwl hyfforddiant ar Ymyrryd yn Gynnar ar gyfer staff y Cyfnod Sylfaen	
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn asesu'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan y Grŵp Meithrin yng Nghymru yn sail i waith pellach i'w wneud yn y maes hwn	
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn sefydlu cynllun peilot er mwyn treialu gwahanol ddulliau o asesu a chanfod yn gynnar blant sy'n agored i niwed	

Camau Gweithredu	Amserlen
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn comisiynu Ymchwiliad i Ymddieithrio fel y nodwyd yn yr ymrwymiad yn y ddogfen Cymru'n Un	
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cynnwys canllawiau ar ymddygiad a phresenoldeb plant a phobl ifanc yn yr Adolygiad o'r Cynllun Gweithredu Rhianta	
<b>Llythrennedd</b>	
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn canolbwyntio ar lythrennedd fel un o'r prif flaenoriaethau drwy ddwyn ynghyd yr amryw linyrnau gwaith ar draws yr adran a chan sicrhau eu bod yn adlewyrchu safbwyntiau sy'n cael eu coleddu ar hyn o bryd ynghyd ag arferion da a hefyd eu bod yn parhau'n effeithiol ac yn cydweddu â pholisïau eraill	
<b>Gwaith amlasiantaethol a rhyngasiantaethol</b>	
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn arbrofi dulliau gweithio amlasiantaethol rhwng ieched, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg er mwyn gwella ailintegreiddio plant sy'n agored i niwed i'r brif ffrwd	
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i gyflwyno'r Strategaeth Cwmsela mewn Ysgolion	
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn casglu data ar arferion cyfredol awdurdodau lleol drwy holiadur er mwyn llywio polisi at y dyfodol a thargeddu adnoddau	
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ysgrifennu at Gadeiryddion pob Bwrdd Lleol Diogelu Plant er mwyn tynnu sylw at y cyswllt rhwng ymddygiad gwael a phresenoldeb a phryderon ynghylch diogelu plant	
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn datblygu tudalennau ar y we ar wella ymddygiad a phresenoldeb	
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn asesu'r dulliau y gellir eu defnyddio i hybu gwaith amlasiantaethol ar gyfer plant agored i niwed	

Camau Gweithredu	Amserlen
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn edrych ar faterion sy'n gysylltiedig â dewis addysg yn y cartref	
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn penodi rheolwr Prosiect i ddatblygu a chydgysylltu'r Cynllun Gweithredu ac yn ystyried ehangu adnoddau staffio er mwyn gweithredu'r cynllun	
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn asesu a gwerthuso prosiectau partneriaethau rhwng rhieni ac ysgolion	
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried argymhellion yr Adolygiad o'r Fframwaith Asesu Cyffredin ac yn gwneud gwaith dilynol fel y bo'n briodol	
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn treialu modelau i wella'r cyswllt rhwng Unedau Cyfeirio Disgyblion a darpariaeth addysg arall heblaw yn yr ysgol, ac ysgolion yn y brif ffrwd	
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried yr argymhellion perthnasol yn ystod yr adolygiad nesaf o'r Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc	
<b>Effeithiolrwydd Ysgolion</b>	
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn addasu a chyfieithu deunyddiau ar agweddau cymdeithasol ac emosiynol ar ddysgu (SEAL) ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd	
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ymgynghori ag Estyn ar newid y trefniadau arolygu yng ngoleuni argymhellion ACYP	
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn comisiynu adroddiadau ar y trefniadau trosglwyddo	
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn mireinio Proffil Effeithiolrwydd Ysgolion y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion er mwyn canolbwyntio'n fwy ar ymddygiad a phresenoldeb	

Camau Gweithredu	Amserlen
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn archwilio'r posibilrwydd o ddynodi gweithiwr proffesiynol arweiniol ar gyfer ymddygiad a phresenoldeb drwy ehangu'r peilot ar gyfer Cydgysylltwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol	
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn diweddarau'r Canllawiau ar y Gyfraith i Lywodraethwyr	
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ysgrifennu at bob ysgol yn amlinellu nodau allweddol y Cynllun Gweithredu ac yn tynnu sylw at argymhellion penodol	
<b>Hyfforddi a Datblygu</b>	
Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi llunio papur mewn ymateb i argymhellion yr ACYP mewn perthynas ag hyfforddi (Atodiad B) a bydd yn mynd ati i'w gynnwys yn rhan o'r agenda hyfforddi ar gyfer Cymru sy'n cael ei hadolygu ar hyn o bryd	
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn canfod ac yn argymhell strwythur hyfforddi priodol ar gyfer y Gwasanaeth Lles Addysg	
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn sicrhau bod sesiynau blasu ar opsiynau hyfforddi ar gyfer rheoli ymddygiad ar gael i gynrychiolwyr awdurdodau lleol	
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i gefnogi athrawon drwy'r llinell cymorth ddwyieithog a chyfrinachol i athrawon a gwasanaeth coetsio	
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn dosbarthu llawlyfr rheoli ymddygiad i fyfyrwyr sy'n derbyn Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon ar lefel uwchradd, myfyrwyr yn y cyfnod Sefydlu ac athrawon yn y cyfnod Datblygiad Proffesiynol Cynnar	
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ymgorffori agweddau ar hawliau plant a phobl ifanc yn rhan o'r adolygiad o'r fframwaith datblygiad proffesiynol ar gyfer athrawon	

### **Ymateb Trwy Hyfforddi a Datblygu: Ymateb i'r Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb (ACYP)**

#### **Y Cefndir a'r Diben**

1. Mae'r papur hwn yn cynnig ffordd ymlaen mewn ymateb i'r argymhellion sy'n ymwneud â hyfforddiant a datblygiad staff mewn ysgolion ac awdurdodau lleol sydd yn yr Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb.
2. Mae'n amlwg o'r Adolygiad bod angen mwy o hyfforddiant a datblygiad ar gyfer gweithwyr proffesiynol wrth iddynt reoli ymddygiad a phresenoldeb. Yn eu plith mae uwch aelodau o'r staff mewn ysgolion, rheolwyr ar yr haen ganol, athrawon dosbarth, cynorthwyrwyr dosbarth ac aelodau eraill o staff yr ysgol.
3. Mae'r Adolygiad yn argymhell y dylid rhoi sylw i ymddygiad a phresenoldeb ac agweddau eraill ar gynhwysiant ar wahanol adegau yn natblygiad proffesiynol athrawon o'r Hyfforddiant Athrawon Cychwynnol, drwy'r cyfnod Sefydlu, a'r broses Datblygiad Proffesiynol Cynnar a Datblygiad Proffesiynol Parhaus.
4. Mae angen gweld y papur hwn yng nghyd-destun y gwaith sydd eisoes ar droed ym maes datblygiad proffesiynol ar agweddau ehangach ar Gynhwysiant ac Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r argymhellion a gyflwynwyd gan Grŵp Gorchwyl Grymuso Athrawon. Dylid ystyried hefyd yr agwedd ehangach ar hyfforddi a datblygu staff yr ysgol mewn perthynas â'r holl feysydd priodol a mentrau cyffredinol megis y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion a datblygu dulliau o wella Addysgeg.
5. Yn ogystal â hynny, mae angen i ddatblygiadau mewn hyfforddi a datblygu gyd-fynd â'r gwaith sy'n mynd yn ei flaen ar y Strategaeth Datblygu Gweithlu Plant a Phobl Ifanc.



## **Hyfforddiant ar gyfer ystod eang o ymddygiadau**

6. Rhaid i unrhyw hyfforddiant ystyried y bydd angen i athrawon fod yn hyderus wrth ddelio â phlant ar sbectrwm o anghenion emosiynol ac ymddygiadol a chymdeithasol a fydd yn amrywio o unigolion sy'n amharu ar lefel isel i unigolion â phroblemau mwy cymhleth a heriol.

## **Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion**

7. Mae'r Fframwaith yn nodi dibenion penodol ar gyfer ysgolion ar lefel genedlaethol sy'n gysylltiedig â nifer o'r pwyntiau a godwyd yn yr ACYP. Mae'r dibenion hynny yn cynnwys yr angen i hybu diwylliant o gynhwysiant cymdeithasol a pharch at amrywiaeth, sefydlu cymunedau dysgu proffesiynol cadarn mewn ysgolion lle gall ymarferwyr ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol ar ddysgu ac addysgu, gan gynnig i blant a phobl ifanc gwricwlwm sy'n ennyn eu diddordeb ac yn eu cymell i ddysgu ac i gyflawni eu potensial.

8. Mae'n rhaid datblygu strategaeth i sefydlu continwwm o hyfforddiant a datblygiad proffesiynol ar gyfer personél sy'n gweithio o fewn y model hwn ar dair lefel sy'n berthnasol i Gynhwysiant/ Anghenion Dysgu Ychwanegol ac sy'n cynnwys rheoli ymddygiad. Rhaid i strategaeth o'r fath ystyried sut y mae ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gyda'i gilydd. Mae angen iddi hefyd ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc sy'n eang eu hystod, yn arbennig y rhai hynny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, ac amlinellu rôl partneriaid allweddol gan gynnwys addysg uwch, addysg bellach, asiantaethau allanol a rôl benodol y Cydgysylltwyr Anghenion Addysgol Arbennig ac ysgolion arbennig.

## **Addysgeg**

9. O ganlyniad i'r ffocws y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei roi ar addysgeg rhoddir cymorth i ymarferwyr wrth iddynt ddatblygu eu harferion proffesiynol er mwyn gwella'r addysgu a'r dysgu. Mae'r model ar gyfer addysgeg effeithiol yn pwysleisio tair elfen sy'n cydblethu ac sy'n cyfrannu at sicrhau'r deilliannau gorau i ddysgwyr a'u lles. Yr elfennau hyn yw'r amgylchedd dysgu, y broses ddysgu a'r strategaethau addysgu.

10. Bydd anghenion y dysgwr unigol yn ganolog i'r addysgeg fwyaf effeithiol a thrwyddi cynigir cyfleoedd addysgu a dysgu a fydd yn ysgogol ac yn gynhwysol gan ymarferwyr sy'n hyderus wrth ddefnyddio ystod eang a hyblyg o strategaethau i gymell ac ennyn diddordeb pob dysgwr. Bydd defnyddio'r strategaethau hyn yn arwain at addysgu sy'n canolbwyntio'n fwy ar anghenion dysgwyr unigol a bydd yn lleihau'r angen am ddefnyddio gwahanol ddulliau o ymyrryd yn yr ystafell ddosbarth. Bydd y ffocws ar addysgeg felly yn defnyddio'r enghreifftiau a'r strategaethau mwyaf effeithiol o addysgu a dysgu i reoli ymddygiad disgyblion er mwyn hybu dysgu ac addysgu.

### **Continwmm Hyfforddiant**

11. Bydd angen i'r hyfforddiant ar reoli ymddygiad gael ei gynllunio ar sail arferion da cyfredol:

- Nodweddion plant, eu datblygiad a'u magwraeth.
- Sut y caiff y dysgu ei gymell, ei gyflawni, ei nodi, ei asesu a sut y gellir adeiladu arno.
- Sut y caiff yr addysgu ei gynllunio, ei gyflwyno a'i werthuso.
- Sut rydym yn gwneud synnwyr o'r cwricwlwm a pha brofiadau y dylai plant eu cael a sut y gall y rhain gael eu trosi a'u strwythuro at ddibenion addysgu.
- Effaith dylanwadau allanol ar ymddygiad plant a sut y gellir defnyddio partneriaethau i ymgysylltu â rhieni, y gymuned etc.

12. Ni fydd angen yr un lefel o hyfforddiant ar bob athro i ddiwallu holl anghenion emosiynol, ymddygiadol a chymdeithasol plant. Ni fyddai'n ymarferol ceisio anelu at wneud hyn yn ofynnol ychwaith. Yr hyn rydym yn ei gynnig yw bod y penderfyniad ynghylch y lefel briodol o hyfforddiant sy'n ofynnol yn cael ei wneud ar sail angen a hynny yn ei dro yn seiliedig ar y cyd-destun y mae'r ymarferydd yn gweithio oddi mewn iddo a'r math o ddysgwyr y mae'n gweithio gyda hwy. Dyma'r camau i'w dilyn:

- Penderfynu ar y gofynion sylfaenol a'r cynnwys sylfaenol ar gyfer hyfforddiant pob athro.

- Penderfynu sut y gallwn greu strwythur hyfforddi sbiral ar gyfer pob athro sy'n adeiladu ar brofiadau, gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau'r gorffennol ac sy'n diwallu anghenion staff sy'n gweithio mewn cyd-destunau penodol gyda phlant unigol.
- Penderfynu sut i ymestyn sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth staff a chanddynt gyfrifoldebau penodol ym meysydd cynhwysiant ac ymddygiad a'r rheini sy'n gweithio gyda phlant ag anghenion mwy cymhleth eu natur.

### **Lefelau Datblygiad Proffesiynol (Cerrig Miltir) o fewn Continwmm Hyfforddiant**

13. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ar fin archwilio'r safonau proffesiynol ar gyfer yr holl ymarferwyr dysgu er mwyn sicrhau bod y safonau hyn yn gydlynus a'u bod yn tynnu sylw at yr elfennau hynny ar arferion proffesiynol a fydd yn arwain at y dysgu a'r addysgu mwyaf effeithiol.

14. Yn cyd-fynd â'r gwaith hwn bydd adolygiad tebyg yn cael ei gynnal ar y cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer datblygiad proffesiynol o'r cyfnod o gwblhau'r hyfforddiant cychwynnol i lefel arweinyddiaeth. Bydd yr adolygiad yn edrych i weld a yw'r cyfleoedd ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus sydd ar gael ar hyn o bryd yn ategu'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion ac a ydynt yn cynnig hyfforddiant a datblygiad effeithiol i ymarferwyr sy'n arwain at wella'r deilliannau i bob dysgwr a'i les. Hefyd, bydd yn ystyried sut y mae'r cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar hyn o bryd wedi eu strwythuro a sut y maent yn gweithredu ar lefel ymarferol er mwyn gweld a ydynt yn cynnig y cyfleoedd mwyaf effeithiol i ymarferwyr addysgu ddatblygu eu sgiliau ac yna trosglwyddo'r sgiliau hynny yn arferion proffesiynol effeithiol.

15. Caiff y broses o archwilio safonau proffesiynol ac adolygu cyfleoedd hyfforddi a datblygu i ymarferwyr ei chyflawni mewn partneriaeth ag amryw o randdeiliaid. Bydd hyn yn ein galluogi i sicrhau bod y blaenoriaethau hyfforddi a datblygu sydd wedi'u nodi yn Adroddiad ACYP yn cael eu hintegreiddio'n rhan o'r systemau a'r strwythurau diwygiedig er mwyn darparu Datblygiad Proffesiynol Parhaus i ymarferwyr. Er mwyn sicrhau y gwneir hyn, byddwn yn cynnwys Grŵp Llywio'r ACYP yn y gwaith o ddatblygu'r cylch gorchwyl ar gyfer y gwaith hwn a chynnwys y grŵp yng ngweithgorau'r rhanddeiliaid sy'n ymwneud â'r prosesau adolygu.

16. Mae argymhellion ACYP yn cyfeirio at nifer o newidiadau sydd angen eu gwneud i hyfforddiant ymarferwyr a chaiff y rhain eu cynnwys yn rhan o'r adolygiad ehangach. Mae trosolwg o'r argymhellion hyn wedi'u cynnwys yn y cynigion isod:

### **Hyfforddiant Cychwynol Athrawon**

17. Mae Safonau Statws Athro Cymwysedig y Cynulliad (y mae'n rhaid i bob hyfforddai eu bodloni os ydynt yn dymuno cymhwyso fel athro) a'r Gofynion ar gyfer Darparu Cyrsiau Hyfforddiant Cychwynol Athrawon (y mae'n rhaid i bob cwrs sy'n cael ei redeg gan ddarparwyr Hyfforddiant Cychwynol Athrawon achrededig sy'n cynnig Statws Athro Cymwysedig eu bodloni) yn rhoi hyblygrwydd i ddarparwyr cyrsiau Hyfforddiant Cychwynol Athrawon yn y modd y maent yn cynllunio eu rhaglenni ac yn annog y darparwyr i ddefnyddio eu barn broffesiynol.

18. Mae Safonau Statws Athro Cymwysedig yn cynnwys yr hyn sy'n angenrheidiol ar gyfer dysgu ac addysgu effeithiol ar gyfer amrywiaeth eang o alluoedd gan gynnwys y galluoedd hynny y cyfeirir atynt yn Adroddiad ACYP sef amrywio eu dulliau addysgu er mwyn diwallu anghenion y disgyblion, bod yn ymwybodol o amrywiaeth o strategaethau er mwyn hybu ymddygiad da, sefydlu amgylchedd dysgu pwrpasol a gosod disgwyliadau uchel a sefydlu fframwaith clir ar gyfer disgyblaeth yn yr ystafell ddosbarth.

19. Mae'n anodd sicrhau cysondeb llwyr yn yr hyfforddiant a gynigir ar wahaniaethu, cynhwysiant cymdeithasol ac, yn enwedig, ymddygiad gan fod yr heriau sy'n wynebu hyfforddeion yn yr ystafelloedd dosbarth yn amrywio a hefyd ddiddordebau'r mentoriaid a'r uwch fentoriaid yn y meysydd hynny lle mae gan y disgyblion broblemau mwy cymhleth. Mae Adroddiad ACYP yn argymhell llunio cytundeb ynghylch cynnwys yr hyfforddiant gan gynnwys yr amser a bennir ar gyfer hyfforddiant ar reoli ymddygiad mewn Sefydliadau Addysg Uwch. Mae'n argymhell yn benodol "Dylai pob myfyriwr HCA gael hyfforddiant sylweddol fwy ar sgiliau rheoli ystafell ddosbarth yn effeithiol fel y nodir yn safonau SAC".

20. Fel y nodir, mae Safonau Statws Athro Cymwysedig (a'r Llawlyfr Canllawiau cysylltiedig) yn nodi'r hyn sy'n angenrheidiol. Fodd bynnag, un o nodau'r Safonau Statws Athro Cymwysedig yw rhoi rhwydd hynt i ddarparwyr benderfynu sut y byddant yn trefnu eu hyfforddiant a sut y byddant yn ymateb i anghenion unigol yr hyfforddeion. Ni fwriedir

iddynt fynd ati i baratoi cwricwlwm na nodi sut y dylid trefnu neu redeg yr hyfforddiant.

21. Gyda'r dull hwn, ni fyddai'n ymarferol ceisio gorfodi holl hyfforddwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon i neilltuo cyfnod penodol o amser i'r agweddau hyn. Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol i ni barhau gyda'n trafodaethau gyda darparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon ynghylch sut y maent yn mynd ati i baratoi cynnwys y cyrsiau a'r sesiynau ac archwilio'r opsiynau sydd ar gael ar gyfer darparu cyngor a chyfarwyddyd ychwanegol iddynt.

22. Hefyd, bydd parhau â'r trafodaethau hyn yn ein cynorthwyo i gasglu tystiolaeth ynghylch beth allai fod yn ddefnyddiol i'w wneud er mwyn ychwanegu at y deunydd sy'n ymwneud â chynhwysiant a rheoli ymddygiad yn y Llawlyfr Canllawiau ar gyfer Safonau Statws Athro Cymwysedig. Os caiff ei gefnogi gan dystiolaeth, gallai hyn gynnwys gwella'r deunydd sy'n bodoli ar hyn o bryd gan gynnwys agweddau fel y canlynol:

- Rôl mentoriaid ysgol ac uwch fentoriaid.
- Datblygiad y plentyn a sut mae datblygiad rhai plant yn cael ei rwystro gan amodau allanol, teuluol, meddygol ac amgylcheddol. Mae'r agweddau hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol a lles plant unigol. [Mae Adroddiad ACYP yn argymhell bod darparwyr hyfforddiant Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yn sicrhau bod gan hyfforddeion HCA "ddealltwriaeth dda o ddatblygiad y plentyn ac achosion anawsterau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol."]
- Ymddygiadau mwy heriol ac ymdrin ag unigolion mewn partneriaeth â staff proffesiynol eraill. Gyda chynnydd yn nifer y Cynorthwywyr Addysgu a benodir, mae'n bwysig gweithio gydag oedolion eraill yn yr ystafell ddosbarth er mwyn cynorthwyo plant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

## Sefydlu

23. Mae'r Safonau'n debyg i Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon oherwydd eu bod yn generig eu natur ac mae datblygiad y sawl sy'n cael ei sefydlu ym maes Anghenion Dysgu Ychwanegol yn dibynnu llawer ar yr ysgol a'r Awdurdod Lleol. Hefyd, mae'n dibynnu a yw'r Awdurdod Lleol/ysgol yn ystyried Anghenion Dysgu Ychwanegol yn un o'r anghenion pwysig o ran datblygiad proffesiynol. Mae cysondeb

o ran y dulliau a ddefnyddir, yr asesu a'r canllawiau a gaiff yr unigolion sy'n cael eu sefydlu yn dibynnu ar sut mae'r Awdurdod Lleol a staff yr ysgol yn dehongli'r safonau a pha mor agos y maent yn dilyn y canllawiau sy'n ofynnol er mwyn bodloni'r safonau hyn.

24. Mae'n bwysig nodi bod gan Awdurdodau Lleol gyflwyniadau cyffredin i faes Anghenion Dysgu Ychwanegol megis eu gweithdrefnau eu hunain wrth ymateb i God Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig a rheoli ymddygiad. Hefyd, mae cefnogaeth ar gael gan Awdurdodau Lleol trwy eu gwasanaethau cynghori i athrawon unigol ynghylch disgyblion unigol yn eu dosbarthiadau.

25. Mae'n rhaid i'r flwyddyn gyntaf fel athro fod yn gyfnod o ymglyfarwyddo â'r holl ddisgwyliadau sydd ynghlwm wrth yrfa fel athro a rhoi'r hyn y maent wedi'i ddysgu a'r hyn y maent yn ei ddysgu ar hyn o bryd gan Awdurdodau Lleol a staff ysgolion yn ei gyd-destun. Mae'n anodd gweld sut y gellir cynyddu'r hyfforddiant a gânt ond mae'n rhaid sicrhau bod yr holl athrawon sydd newydd gymhwyso yn cael y canllawiau priodol a'u bod yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ynghylch cynhwysiant, sut i hybu ymddygiad cadarnhaol a'u bod yn cael gwybodaeth benodol ar agweddau megis plant ag Anawsterau Emosiynol, Cymdeithasol ac Ymddygiadol.

26. Mae angen diffinio'n well y safonau sy'n gysylltiedig â'r cyfnod sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar mewn perthynas ag anghenion Ymddygiad gan gynnwys enghreifftiau o arferion da ynghylch Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ystod y Datblygiad Proffesiynol Cynnar ac mae angen rhannu'r diffiniad hwnnw. Mae'n rhaid i'r rheini sy'n rhan o'r broses o asesu a monitro Athrawon Newydd Gymhwyso fod yn ymwybodol o'r hyn yw arferion da a'r hyn sydd ei angen i fodloni'r Safonau sy'n ymwneud ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ac ymddygiad.

### **Datblygiad Proffesiynol Cynnar (EPD)**

27. Yn dilyn y cyfnod sefydlu ceir rhaglen ddwy flynedd o Ddatblygiad Proffesiynol Cynnar a fydd yn hyblyg a chydlynus ei natur. Mae'r rhaglen Datblygiad Proffesiynol Cynnar yn annog athrawon i gynnal ac i ddatblygu ymhellach eu patrymau a'u harferion hunanwerthuso a myfyrio y maent wedi'u datblygu yn ystod y cyfnod sefydlu.

28. Mae hyfforddiant ar ymdrin ag ymddygiad yn ddibynol ar lefel diddordeb yr unigolion, anghenion penodol yr ysgol ar amser penodol a'r cyrsiau hyfforddiant a'r arbenigedd sydd gan yr Awdurdodau Lleol unigol i'w cynnig. O ran hyn, felly, nid oes cysondeb o ran datblygiad proffesiynol ar draws yr Awdurdodau Lleol.

29. Gall y cyfnod sefydlu ar gyfer yr Athro Newydd Gymhwyso fod yn gyfnod o setlo i mewn a gall y gwaith fod yn eithaf trwm sy'n golygu y bydd yn gorfod dysgu llawer mewn cyfnod byr. Yn hyn o beth, gellir defnyddio datblygiad proffesiynol cynnar i sicrhau bod y rhai hynny sy'n cwblhau'r cyfnod sefydlu yn cael sesiynau a hyfforddiant penodol, gan ychwanegu at yr hyfforddiant a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod Sefydlu. Byddai rhaglen barhaus o sesiynau penodol yn sicrhau cydbwysedd o ran y dulliau gweithredu a ddefnyddir.

### **Datblygiad Proffesiynol Parhaus**

30. Dengys tystiolaeth o Astudiaeth Gwmpasu a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar hyfforddiant ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol fod llawer o amrywiaeth yn y cyfleoedd sydd ar gael i athrawon ddatblygu eu hunain yn broffesiynol.

31. Ar hyn o bryd, nid ystyrir Datblygiad Proffesiynol Parhaus fel penllanw i gontinwmm o hyfforddiant sy'n dechrau gyda Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon, yna'r cyfnod Sefydlu, Datblygiad Proffesiynol Cynnar ac yna'r Datblygiad Proffesiynol Parhaus. Mae'n ddibynol ar anghenion yr athro neu'r ysgol ei hun ac felly, ar hyn o bryd, nid yw'n gyfrwng cadarn iawn ar gyfer sicrhau y caiff polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ei roi ar waith. Byddwn yn edrych ar roi fframwaith tynnach ar waith o ran yr hyn y gellir ei gynnwys yn y rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus ac yn cynnwys yn rhan ohoni agweddau ar gynhwysiant ac ymddygiad.

32. Mae'n wir dweud bod yn rhaid bod yna elfen o ddewis o ran datblygiad personol wrth fynd ati i ffurfio cynnwys a chysiau. Fodd bynnag, mae'n rhaid i gynnwys Datblygiad Proffesiynol Parhaus gael ei weld yng nghyd-destun datblygiadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru. Dylid ystyried y posibilrwydd o gynnwys gwybodaeth glir am gynhwysiant ac ymddygiad yn y modiwlau ar gyfer Athrawon Siartredig hefyd.

33. Mae'n hanfodol bod yr hyfforddiant yn cynnwys gweithgareddau amlddisgyblaethol a rhyngddisgyblaethol fel ei gilydd a bod yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu cyfuno ar ffurf 'cronfa' fel bod modd sicrhau cysondeb, rhannu arferion da a gwneud defnydd effeithiol o'r arbenigedd sydd ar gael.

34. Dengys tystiolaeth o'r astudiaeth Gwmpasu ar Rymuso Athrawon bod yna brinder hyfforddiant ar ymdrin ag ymddygiadau mwy heriol ar gyfer ysgolion ac unedau arbennig.

35. Wrth ddatblygu hyfforddiant i'r rheini sy'n gweithio fel Cydgysylltwyr Anghenion Addysgol Arbennig [neu mewn rôl ehangach fel Cydgysylltwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol os caiff hyn ei fabwysiadu yn y dyfodol] mae angen defnyddio'r cynlluniau peilot ar Asesiadau a Datganiadau Statudol.

### **Camau Gweithredu**

36. Gweithio i ddatblygu mathau mwy penodol o hyfforddiant a datblygiad ar ymddygiad a phresenoldeb a chynhwysiant yn fwy cyffredinol o fewn y nod ehangach sef sefydlu Fframwaith Datblygu Proffesiynol ar gyfer staff addysgu o'r cyfnod Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon i'r cyfnod Sefydlu, Datblygiad Proffesiynol Cynnar ac yna'r Datblygiad Proffesiynol Parhaus hyd at hyfforddiant i Reolwyr Canol ac Uwch Reolwyr a hyfforddiant i Benaethiaid. Bydd hwn yn gontinwwm ar gyfer datblygiad proffesiynol gydag argymhellion ACYP yn llywio'r llinyn ar reoli ymddygiad a fyddai, yn ei dro, yn cael ei gysylltu â'r agweddau ehangach ar gynhwysiant.

37. Ar hyn o bryd, mae'r strwythur datblygu proffesiynol ar gyfer ymarferwyr dysgu yn cael ei adolygu a byddwn yn gweithio er mwyn sicrhau bod y gwelliannau y mae'r ACYP yn eu hystyried yn angenrheidiol yn cael eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu'r trefniadau newydd. Isod, cyflwynir cynigion ACYP sy'n ymwneud â'r trefniadau presennol ar gyfer hyfforddiant ond bydd yn rhaid iddynt gael eu hystyried wrth i'r adolygiad ddatblygu er mwyn sicrhau y caiff unrhyw waith a wneir yn y meysydd hyn ei gynnwys yn y dull ehangach o hyfforddi a datblygu yn y tymor hir.

- Sefydlu gweithgor ACYP i gynorthwyo gyda llunio cylch gorchwyl ar gyfer archwilio'r safonau proffesiynol ar gyfer ymarferwyr ac adolygu hyfforddiant a datblygiad ar gyfer ymarferwyr addysgu a chymryd rhan yn y grwpiau rhanddeiliaid sy'n llywio'r gwaith hwn.



- Cydweithio'n agos gyda Grŵp Gorchwyl Grymuso Athrawon i archwilio cynnwys y cwrs a'r sesiynau gan ganolbwyntio'n benodol ar gynhwysiant a rheoli ymddygiad sy'n cael ei gyflawni gan ddarparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon.
- Rhoi mwy o bwyslais ar agweddau penodol ar ymddygiad a phresenoldeb a thrafod gyda darparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon eu hanghenion am ganllawiau ychwanegol i gyd-fynd â'r Llawlyfr Canllawiau cyfredol ar Safonau Statws Athro Cymwysedig.
- Ystyried agweddau ar hyfforddiant ar reoli ymddygiad o fewn y cynllun peilot presennol ar ddatblygu rôl y Cydgysylltydd Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- Cyfarfod â swyddogion sefydlu'r Awdurdodau Lleol a mentoriaid ysgolion â chyfrifoldeb am Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Parhaus er mwyn edrych ar dreialu hyfforddiant ar roi cymorth ar reoli ymddygiad a chasglu tystiolaeth at ddibenion unrhyw adolygiadau a wneir yn y dyfodol ar ddiwedd y safonau sefydlu.
- Cynnal cyfarfodydd / trafodaethau / digwyddiadau rhwydwaith rheolaidd â staff yr Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol am ymddygiad a disgyblaeth, gan gynnwys sesiynau enghreifftiol gan ddarparwyr hyfforddiant.
- Defnyddio'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion i annog 'cyfuno' rhaglenni hyfforddiant a chymunedau / rhwydweithiau er mwyn rhannu arferion da yn enwedig ym maes rheoli ymddygiad a phresenoldeb.
- Cydweithio gyda'r adolygiad ar hyfforddi a datblygu gan ganolbwyntio'n benodol ar reoli ymddygiad. Fel rhan o'r gwaith hwn, ystyried edrych ar greu continwwm rheoli ymddygiad a'i fapio mewn modd a fyddai'n gyd-fynd â chontinwwm y cerrig milltir ar gyfer datblygiad proffesiynol.
- O fewn cylch gwaith Grŵp Gorchwyl Grymuso Athrawon:
  - sicrhau bod cyrsiau sy'n cael eu rhedeg gan staff ysgolion arbennig sy'n ymdrin ag Anawsterau Dysgu difrifol yn ateb anghenion staff ysgolion ac unedau arbennig fel eu bod yn gallu ymdrin ag ymddygiadau mwy heriol
  - cynnwys rheoli ymddygiad mewn adnoddau hyfforddiant arfaethedig
  - cynnwys rheoli ymddygiad mewn canllawiau arfaethedig ar gyfer athrawon sy'n gweithio mewn partneriaeth â chynorthwywyr addysgu.

- Ystyried y posibilrwydd bod darparwyr hyfforddiant Anogwyr Dysgu 14-19 yn hybu cyrsiau hyfforddi ar gyfer Anogwyr Dysgu sy'n cynnwys hyfforddiant penodol ar reoli ymddygiad.
- Gan ddefnyddio'r model o'r Fenter 'Datgloi'r Potensial', treialu rhannu arbenigedd y rhai hynny sy'n gweithio mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion gydag ysgolion prif ffrwd.
- Y cynlluniau peilot ar gyfer Aseidiadau a Datganiadau Statudol i ystyried yr ymatebion a'r ffyrdd ymlaen ynghylch rolau i ymateb i Anawsterau Emosiynol, Cymdeithasol ac Ymddygiadol.
- Rhoi mwy o sylw i fframwaith arolygu Estyn a'i raglen hyfforddi ar ymddygiad ac Anghenion Dysgu Ychwanegol.

### **Y Gwasanaeth Lles Addysg**

38. Roedd llawer o argymhellion yr Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb yn ymwneud ag anghenion hyfforddiant y Gwasanaeth Lles Addysg. Nodwyd yn benodol y "... dylid cyflwyno strategaeth genedlaethol yng Nghymru i hyfforddi pob aelod o'r Gwasanaeth Lles Addysg." Mae rheolwyr y Gwasanaeth Lles Addysg yn ymrwymedig i gyflwyno fframwaith gyrfaol priodol. Y bwriad yw y bydd is-grŵp o reolwyr y Gwasanaeth Lles Addysg yn gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn nodi ac argymhell strwythur hyfforddi priodol. Rhagwelir y bydd ar ffurf continwwm o ddatblygiad proffesiynol sy'n cynnwys hyfforddiant ar yr amrywiol rolau sydd wedi eu datblygu erbyn hyn fel rhan o gylch gwaith y gwasanaeth lles addysg. Erbyn Gwanwyn 2009, bydd y gwaith cwmpasu wedi dechrau. Yn rhan o'r broses hon, bydd hyfforddiant tymor byr ar faterion yn ymwneud yn benodol â'r Gwasanaeth Lles Addysg yn dechrau cael ei gyflwyno yn 2009/10.